

Canllawiau Cynllunio Atodol

Creu Ymdeimlad o Le a Dylunio

Mabwysiadwyd
Medi 2016



Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin

Cynnwys

1.0 Rhagymadrodd

- 1.1 Diben
- 1.2 Cefndir

2.0 Y Cyd-destun Polisi

- 2.1 Cenedlaethol
- 2.2 Lleol

3.0 Egwyddorion Creu Ymdeimlad o Le a Dylunio - Yr Ardal Ehangach

- 3.1 Cyflwyniad
- 3.2 Cymeriad y Dirwedd

4.0 Egwyddorion Creu Ymdeimlad o Le a Dylunio: Yr Ardal Leol

- 4.1 Cymeriad
- 4.2 Lleoli Datblygiadau
- 4.3 Asedau Safle
- 4.4 Hygyrchedd a Gallu Symud yn Rhwydd
- 4.5 Tir y Cyhoedd
- 4.6 Ffurf y Datblygiad
- 4.7 Defnyddiau a Gweithgareddau
- 4.8 Ansawdd y Dylunio a Pherfformiad

5.0 Y Broses o Greu Ymdeimlad o Le a Dylunio

- 5.1 Cyflwyniad
- 5.2 Arfarnu'r Safle a'i Gyd-destun
- 5.3 Datblygu Cysyniad Dylunio
- 5.4 Proses y Cais Cynllunio

Astudiaeth Achos



Rhagymadrodd

1

1.1 Diben

1.1.1 Cafodd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn eu paratoi er mwyn iddynt arwain a hyrwyddo dylunio cynaliadwy, o ansawdd da, yn y Sir. Maent yn rhoi arweiniad pellach a, lle mae hynny'n berthnasol, yn ymhelaethu ar bolisïau a chynigion Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Gaerfyrddin, gan roi mwy o eglurder i helpu datblygwyr i ddeall y gofynion craidd a'r elfennau y mae'n rhaid eu hystyried a'u cynnwys mewn cynnig cynllunio.

1.1.2 Nod yr arweiniad a roddir yn y Canllawiau yw sicrhau datblygu dichonadwy, o safon uchel, sydd wedi'i gyd-drefnu a sicrhau bod cynigion yn adlewyrchu ac yn parchu cymeriad a gofynion Sir Gâr.

1.1.3 Cafodd y Canllawiau hyn eu cynhyrchu ar ôl mabwysiadu'r CDLI ac maent yn adlewyrchu Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Eu prif ddiben yw darparu rhagor o wybodaeth a manylion ynglŷn â'r egwyddorion a'r paramedrau y dylai datblygwyr gadw atynt er mwyn gwireddu datblygiadau dichonadwy, cydlynus, wedi'u dylunio'n dda. Maent hefyd yn egluro ac yn nodi'r elfennau eraill y mae gofyn eu hystyried a rhoi sylw iddynt fel rhan o gais cynllunio.

1.1.4 Er nad oes i Ganllawiau Cynllunio Atodol yr un statws â pholisïau cynllun datblygu sydd wedi'i fabwysiadu, dylid nodi y gellir rhoi sylw iddynt fel ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

1.2 Cefndir

1.2.1 I sicrhau dylunio da a chreu ymdeimlad effeithiol o le rhaid deall y berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Mae dylunio yn sylfaenol bwysig er mwyn creu datblygiad cynaliadwy, sydd yn flaenllaw yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'r Ddeddf yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus fel awdurdodau lleol weithio i sicrhau y dylai datblygiadau gydnabod a cheisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardal. Mae amryw ffyrdd o gyflawni Datblygiad Cynaliadwy - er enghraifft mae mabwysiadu dull seilwaith gwyrdd yn fuddiol i'r amgylchedd, yn ogystal ag i iechyd a lles ei drigolion a'i weithwyr.

1.2.2 Ceir nifer o fanteision drwy ddylunio datblygiadau'n well. Er enghraifft, gallai gwelliannau esthetig i'r amgylchedd adeiledig arwain at adfywio ardaloedd sydd wedi mynd ar i lawr, tra gall cyflwyno'r cysyniad o seilwaith gwyrdd

mewn datblygiadau arwain at fanteision a gwelliannau i gynefinoedd a bioamrywiaeth yn yr amgylchedd naturiol. Hefyd, bydd mannau cyhoeddus sydd wedi'u dylunio'n dda, a chysylltiadau da rhyngddynt, yn annog trigolion lleol a'r cyhoedd i gerdded a beicio, gan leihau'r ddibyniaeth ar y car. Gall y rhain, ynghyd â gwelliannau dylunio amgylcheddol syml, fel gostegu traffig, gwaith tirweddu newydd a goleuadau stryd, arwain at well lleoedd i fyw ynddynt a chymdeithas fwy clos.

1.2.3 Mae dylunio'n bwysig i ansawdd ein bywydau. Mae tirweddau a threfweddau sydd wedi'u dylunio'n dda yn help i sefydlu ymdeimlad o le, rhywbeth sy'n bwysig i gymunedau a chymdogaethau. Bydd creu mannau sydd wedi'u dylunio'n dda, boed nhw'n drefol neu'n wledig, yn arwain at amgylcheddau o safon a fydd yn help i feithrin cymunedau sy'n ddiogel ac yn hygyrch i bawb.



Y Cyd-destun Polisi

2.1 Cenedlaethol

2.1.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8) yn nodi polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru (LIC). Ei amcan canolog yw hyrwyddo a darparu fframwaith i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Un o'r ffactorau allweddol er cyflawni hyn yw hyrwyddo cynaliadwyedd drwy ddylunio da.

2.1.2 Caiff dylunio ei ddiffinio ym Mholisi Cynllunio Cymru fel:

“y berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. I greu datblygiad cynaliadwy, rhaid i'r dylunio fynd y tu hwnt i estheteg a chynnwys agweddau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y datblygiad, gan gynnwys adeiladu, gweithredu a rheoli'r datblygiad, a'i berthynas â'i gwmpasoedd.” (Paragraff 4.11.1)

2.1.3 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio yn ystyried materion dylunio ac yn nodi amcanion LIC i ddatblygiadau newydd. Diben y TAN yw rhoi cyngor i bawb sy'n ymwneud â dylunio datblygiad ar sut y gellir hwyluso cynaliadwyedd drwy ddylunio da fel rhan o'r broses gynllunio. Mae'r TAN yn pwysleisio bod

angen proses gydweithredol, greadigol, sy'n datrys problemau ac yn arloesi - gan ymgorffori cynaliadwyedd, pensaernïaeth, creu ymdeimlad o le, amgylchfyd cyhoeddus, tirwedd a seilwaith.

2.1.4 Mae LIC wedi ymrwymo i hyrwyddo mathau mwy cynaliadwy o ddatblygu, ac mae ei chynllun datblygu cynaliadwy, Un Gymru: Un Blaned, (2009) yn nodi sut y mae am ymdrin â datblygu cynaliadwy. Drwy system gynllunio Cymru, gellir defnyddio dylunio da i chwarae rhan o bwys er gwireddu mathau cynaliadwy o ddatblygu ac mae Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi canllawiau ar sut y gall system gynllunio Cymru wireddu hyn.

2.1.5 Gall egwyddorion creu ymdeimlad o le a dylunio gyfrannu mewn nifer o ffyrdd tuag at ddatblygu cynaliadwy a chynaliadwyedd. Yn eu mysgr mae:

- parchu cymeriad a hunaniaeth leol;
- parchu tirlfurf a thopograffi;
- parchu tirwedd a bioamrywiaeth;
- defnyddio defnyddiau ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- codi adeiladau cryf a fydd yn para

Ymdrinnir â'r egwyddorion hyn yn fanwl yn yr adrannau i ddod lle maent yn rhan o'r broses o greu ymdeimlad o le a dylunio.

2.2 Lleol

2.2.1 Dylid darllen y ddogfen hon law yn llaw â'r polisiâu a'r canllawiau a geir yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Gaerfyrddin, a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2014. Mae'r canllawiau'n ategol at y CDLI, a'r polisi hwn yn benodol:

Polisi GP1 Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Da

Caiff cynigion datblygu eu caniatáu os ydynt yn unol â'r canlynol:

- a) Mae'n cydymffurfio â chymeriad a golwg y safle, adeilad neu ardal, ac yn eu gwella, yn nhermau lleoliad, golwg, graddfa, uchder, mas, addurn y wyneb, a'r manylion;
- b) Mae'n ymgorffori nodweddion tirweddol neu nodweddion eraill sy'n bodoli eisoes, yn cymryd i ystyriaeth gyfuchlinau'r safle a newidiadau mewn lefelau a nenlinellau neu gefnennau amlwg;

- c) Mae'n defnyddio deunyddiau sy'n briodol i'r ardal lle y saif;
- d) Ni fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar amwynder defnyddiau tir, eiddo neu breswylwyr cyfagos, neu'r gymuned;
- e) Mae'n cynnwys cymysgedd integredig o ddefnyddiau sy'n briodol i raddfa'r datblygiad;
- f) Mae'n cadw, a lle bo'n briodol yn ymgorffori, nodweddion lleol pwysig (gan gynnwys adeiladau, mannau amwynder, mannau agored, coed, coetiroedd a pherthi) ac yn sicrhau y defnyddir tirweddau caled a meddal o ansawdd da ac yn manteisio ar gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol;
- g) Mae'n sicrhau ac yn creu lleoedd a mannau cyhoeddus deniadol a diogel, sy'n sicrhau diogelwch trwy egwyddorion 'dylunio i atal trosedd' Diogelu Drwy Dylunio (gan gynnwys darparu gwyliadwriaeth naturiol, gwelededd, amgylcheddau sydd wedi'u goleuo'n dda a mannau lle mae'r cyhoedd yn symud o gwmpas);
- h) Mae mynedfa briodol yn bodoli neu gellir darparu un nad yw'n creu unrhyw bryderon ynghylch parcio neu

ddiogelwch ar y ffyrdd ar y safle neu yn yr ardal;

- i) Mae'n gwarchod a gwella treftadaeth dirweddol, drefweddol, hanesyddol a diwylliannol y sir ac nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar y lleoliad neu gyfanrwydd yr amgylchedd hanesyddol;
- j) Mae'n sicrhau neu'n darparu ar gyfer cynhyrchu, trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr brwnt mewn modd boddhaol;
- k) Mae'n rhoi sylw i gynhyrchu, trin a gwaredu gwastraff;
- l) Mae'n rhoi sylw i ddefnydd diogel, effeithiol ac effeithlon o'r rhwydwaith trafnidiaeth;
- m) Mae'n darparu rhwydwaith integredig sy'n hybu buddiannau cerddwyr, beicwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n sicrhau mynediad rhwydd i bawb;
- n) Mae'n cynnwys, lle bo'n berthnasol, ddarpariaeth ar gyfer rheoli a dileu rhywogaethau goresgynol yn briodol.

Caiff cynigion eu hystyried hefyd yng ngoleuni polisïau a darpariaethau'r Cynllun hwn a pholisïau cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 7 a TAN12: Dylunio (2014)).

Ymysg polisïau perthnasol eraill y CDLI mae:

H1	Dyraniadau Tai
TR2	Lleoli Datblygiadau -Ystyriaethau Trafnidiaeth
TR3	Priffyrdd mewn Datblygiadau - Ystyriaethau Dylunio
TR4	Beicio a Cherdded
EQ1	Gwarchod Adeiladau, Tirweddau a Nodweddion o Bwysigrwydd Hanesyddol
EQ3	Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol
EQ6	Ardaloedd Tirwedd Arbennig
REC2	Darparu Mannau Agored a Datblygiadau Newydd
EP1	Adnoddau ac Ansawdd Dŵr
SP13	Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol
SP16	Cyfleusterau Cymunedol

Dylid hefyd rhoi sylw dyledus i Ganllawiau Cynllunio Atodol eraill sydd wedi'u paratoi mewn perthynas â CDLI Sir Gaerfyrddin.

Egwyddorion Creu Ymdeimlad o Le a Dylunio

3

3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Sir Gaerfyrddin yw'r drydedd sir fwyaf yng Nghymru, yn cwmpasu rhyw 2,365 cilometr sgwâr, sy'n cynrychioli 11.5% o holl dirfas Cymru. Mae Sir Gaerfyrddin yn sir gyfoethog ac amrywiol, llawn gwrthgyferbyniadau. Ochr yn ochr ag economi a thirwedd amaethyddol Sir Gaerfyrddin wledig ceir yr ardal fwy trefol a diwydiannol yn y de-ddwyrain. O fewn y Sir, mae'r hen ddiwydiannau glo a dur a diwydiannau trwm eraill wedi gadael eu gwaddol amgylcheddol, ond ar yr un pryd rhoddwyd dynodiadau cenedlaethol neu leol i ardaloedd eang oherwydd eu gwerth ecolegol arbennig neu eu gwerth o ran y dirwedd. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddiwallu gofynion yr economi a'r gymdeithas fodern drwy sicrhau bod unrhyw ddatblygu newydd o safon uchel, ei fod yn gynaliadwy ac yn parchu a, lle mae hynny'n bosibl, yn cyfoethogi cymeriad neilltuol y lleoliad penodol lle bwriedir datblygu.

3.1.2 Mae'r broses o greu ymdeimlad o le yn dibynnu ar ddealltwriaeth o amryw o ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn ystod y cais cynllunio a'r broses ddylunio. At ddibenion y canllawiau hyn, mae'r broses

wedi cael ei rhannu'n dri cham gwahanol, sy'n perthyn i'w gilydd:

1. sut mae datblygiad newydd yn gweddu i'r ardal ehangach a pha rôl weithredol y gall ei chwarae ynddi, o ystyried y cyd-destun amgylcheddol a gweledol;
2. beth yw'r berthynas rhwng datblygiad ag ardal leol a chymuned, ac a fydd yn rhan annatod ohonynt; a
3. y cyfraniad cadarnhaol y gall adeiladau unigol o fewn datblygiad ei wneud i ardal, o ran ansawdd y dylunio a diben ymarferol yr adeiladau.

3.1.3 Mae'r Adran hon yn ymdrin â cham 1 uchod ac Adran 4 isod yn ymdrin â cham 2. Trafodir rhywfaint ar gam 3 yn Adran 4 ond bydd ystyriaethau dylunio penodol yn ymwneud ag adeiladau unigol yn destun Canllawiau Cynllunio Atodol ar wahân ar ddylunio preswyl.

Manteision dylunio da

3.1.4 Mae manteision amgylcheddol a chymdeithasol yn ogystal â manteision economaidd i greu datblygiad sydd wedi'i

ddylunio'n dda. Mae astudiaethau wedi dangos bod dylunio amgylchedd o ansawdd da yn hanfodol i ffyniant economaidd gan y bydd yn fwy deniadol i ddarpar fuddsoddwyr yn ogystal â bod yn fwy atyniadol i gwsmeriaid, gweithwyr allweddol a thwristiaid. Yn yr un modd, bydd adeiladau a gweithfannau sydd wedi'u dylunio'n well yn rhoi ichi weithwyr mwy cynhyrchiol. Ar yr un pryd, bydd cymdogaethau sydd wedi'u dylunio'n dda yn creu cymunedau hapusach ac iachach a fydd yn ymroi mwy i gynnal a chadw'u hamgylchedd. Gallai'r manteision amgylcheddol gynnwys llai o lygredd yn sgil gostyngiad mewn traffig, amddiffyn neu gynyddu bioamrywiaeth, a chadw'r dreftadaeth adeiledig. Mae'r manteision hyn i gyd yn elfennau canolog mewn datblygu cynaliadwy ac i ffyniant economaidd hirdymor ardal.

3.2 Cymeriad y Dirwedd



3.2.1 Mae'n bwysig fod datblygiadau newydd yn cydnabod ac yn parchu'r amrywiaeth unigryw o dirweddau yn Sir Gaerfyrddin. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cynhyrchu map cymeriad tirwedd i Gymru gyfan, gyda 48

o ardaloedd cymeriad tirwedd ar raddfa ranbarthol. Mae i bob un ymdeimlad penodol o le sy'n golygu bod modd ei hadnabod fel un ardal – e.e. cadwyn o fryniau neu ardal drefol


mawr. Ceir yn Sir Gaerfyrddin 9 o'r ardaloedd cymeriad penodol hyn. Mae'r ardaloedd cymeriad yn cynnwys tirweddau sy'n amrywio o fynyddoedd garw i fryniau gwyrddion, o

ddyffrynnoedd afon gwledig i gymoedd ôl-ddiwydiannol, ac o arfordiroedd creigiog gyda thraethau eang i forydau llanw hardd.

Map Cymeriad Tirwedd Sir Gaerfyrddin



21-Mynyddoedd Cambria ; 28-Llwyfandir a Dyffrynnoedd Epynt; 30-Bannau Brycheiniog; 33-Cymoedd Gwendraeth; 37-Cymoedd y De; 38-Bae Abertawe; 40-Dyffryn Teifi ; 41-Dyffryn Tywi; 42-Bryniau godre Penfro a Chaerfyrddin; 44-Dyffrynnoedd Taf a Chleddau; 45-Morydau Taf, Tywi a Gwendraeth ; 46 Mynyddoedd y Preseli; 47-Arfordir De Penfro.



3.2.2 Mae'r tirweddau amrywiol hyn wedi dylanwadu'n hanesyddol ar ble y sefydlwyd aneddiadau, ac mae'r gydberthynas hon yn hanfodol i'n dealltwriaeth o sut y gall datblygiadau newydd integreiddio'n gadarnhaol i'r dirwedd ehangach. Dylai datblygiad newydd ategu ac atgyfnerthu'r cymeriad presennol drwy ymateb i'r ymdeimlad o le mewn ffordd sy'n cysoni'r gorffennol â'r hyn sy'n addas ac yn briodol heddiw. Mae Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn dynodi 58 o dirweddau o ddiddordeb hanesyddol arbennig neu ragorol, yr ystyrir mai nhw yw'r enghreifftiau gorau o fathau gwahanol o dirweddau hanesyddol yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r ardaloedd a ddewiswyd ar gyfer y Gofrestr hon yn golygu bod gweddill treftadaeth gyfoethog Cymru o ran tirwedd yn llai pwysig.

3.2.3 Dylanwadir ar gymeriad tirwedd gan ddaeareg a thirffurf ardal. Mae angen deall a gwerthfawrogi'r rhain cyn y gallir deall sut y gall datblygiad weddu'n briodol i dirwedd ehangach ardal a chyfrannu iddi. Prosesau daearyddol sydd wedi siapio'r tir i'r ffurf gyffredinol a welwn heddiw a gall y mathau o graig, sydd yn aml o werth economaidd, ddylanwadu ar gynhyrchiant y tir sy'n eu gorchuddio. Mae'r tirffurf sy'n deillio o hynny, o fryniau tonnog i

ardaloedd arfordirol gwastad, wedi dylanwadu ar sut mae dyn wedi cyfanheddu ac mae'n llywio cymeriad gweledol ardal a sut y gellir ymgorffori datblygu yn sensitif i'r dirwedd.


3.2.4 Yn ogystal â chymeriad y dirwedd, fel rhan o'r Asesiad Morwedd Cenedlaethol ar gyfer Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dynodi cymeriad morweddau Cymru yn 29 Ardal Cymeriad Morol. Mae cymeriad morwedd yn pennu cysylltiadau rhwng pobl a'u diwylliant, ac mae deall y synnwyr o le sy'n perthyn i'r gwahanol forweddau o amgylch Cymru yn hynod bwysig wrth gynllunio gweithgareddau twristiaeth a hamdden.

Ardaloedd Tirwedd Arbennig


3.2.5 Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) yn ddynodiad anstatudol a bennwyd yn dilyn asesiad ffurfiol o briodweddau tirwedd y Sir. Defnyddiwyd Nodyn Cyfarwyddyd yr hen Gyngor Cefn Gwlad wrth godi'r canlyniadau oddi ar ddata LANDMAP i sefydlu'r dynodiad. Yn y cyswllt hwn mae'r dynodiadau'n adlewyrchu'r meysydd agwedd a ddiffiniwyd yn LANDMAP ac yn ceisio defnyddio'r categorïau 'eithriadol' a hefyd, lle mae'n briodol, y rhai a roddwyd yn y dosbarth 'uchel'.



Rhydaman a Mynydd Betws o Warchodfa Natur Genedlaethol Carmel, ar grib carreg galch amlwg Sir Gaerfyrddin.



Ardaloedd Tirwedd Arbennig Sir Gaerfyrddin. Dylid cyfeirio at Bolisi EQ6 Ardaloedd Tirwedd Arbennig.



1. Nodweddir rhan isaf Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Tywi gan orlifdir eang, o dir amaethyddol yn bennaf gyda pherthi a choed aeddfed. Mae parcdiroedd a chestyll hanesyddol hefyd yn nodwedd o'r rhan hon o'r dyffryn.
2. Mae Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Lluchwr, ardal denau ei phoblogaeth, yn cynnal cymysgedd deniadol o goetir a thir amaethyddol.
3. Nodweddir rhan uchaf Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Tywi gan ochrau cul, sy'n codi'n serth. Ceir yma gaeau bach, perthi, coetir, ffermydd traddodiadol a'r afon.
4. Ardal Tirwedd Arbennig Bae Caerfyrddin ac Aberoedd: Mae'r cymysgedd o dirweddau gwahanol ochr yn ochr â'i gilydd – morfeydd heli, traethau a llethrau coediog y morydau – yn creu ardal sy'n cynnig golygfeydd o safon uchel
5. Ardal Tirwedd Arbennig Mynydd Mallaen: Darn gwyllt ac agored o lwyfandir uchel.

Crynodeb Gwerthuso'r Dylunio o ran Cymeriad Tirwedd:

- ✓ Ydy ffurf y cynnig datblygu yn gweddu i'r dirwedd ehangach ac yn ei chyfoethogi?
- ✓ Ydy'r cynnig dylunio wedi ystyried unrhyw ddynodiadau tirwedd?
- ✓ lle mae dynodiadau tirwedd yn bodoli, a oes trafodaethau cyn gwneud cais wedi cael eu cynnal gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ganfod effeithiau posibl neu'r mathau o gynnig a gâi eu caniatáu / na chaent eu caniatáu?

3.2.6 Cyfrwng i asesu tirwedd a ddefnyddir ar draws Cymru gyfan yw LANDMAP, ac mae'n disgrifio a gwerthuso agweddau o dirweddau. Gall awdurdodau ei ddefnyddio fel sail i bolisi a phenderfyniadau. Mae'n nodi pum 'maes agwedd': tirwedd ddaearyddol, tirwedd weledol a synhwyrdd, cynefin tirwedd, tirwedd ddiwylliannol, a thirwedd hanesyddol.

3.2.7 Nodir Ardaloedd Tirwedd Arbennig ar Fap Cynigion y CDLI ac ymdrinnir â nhw ym Mholisi EQ6. Mae 18 ohonynt i gyd ac maent yn cynnwys dyffrynnoedd afonydd, tirweddau ucheldir a thirweddau arfordirol. Mae Ardal Tirwedd Arbennig Bae Caerfyrddin ac Aberoedd yn cynnwys nifer o dirweddau gwahanol sydd wedi cael eu hystyried fel continwmm.

Seilwaith Gwyrdd

3.2.8 Seilwaith Gwyrdd yw'r term a ddefnyddir ar gyfer rhwydwaith o lecynnau gwyrdd aml-swyddogaethol, trefol a gwledig, sy'n gallu darparu amrywiaeth eang o fuddion amgylcheddol ac ansawdd bywyd ar gyfer cymunedau lleol. Mae'n darparu dulliau seiliedig ar systemau o ymdrin â chynllunio a datblygu gan ymdrechu i integreiddio amcanion datblygu a'r gofynion i gadw a gwella'r amgylchedd naturiol – elfennau sy'n gallu cystadlu yn erbyn ei gilydd. Tra mae'r dull Seilwaith Gwyrdd yn nodi'r amgylchedd

naturiol fel ased y gall datblygwyr ei ddefnyddio i sicrhau twf economaidd, mae hefyd yn gyfrwng i amddiffyn a gwella'r 'asedau' hyn yn gadarn. Dyna pam mae systemau Seilwaith Gwyrdd yn cael eu gweld fel elfen dyngedfennol o ddatblygu cynaliadwy.

Asedau Seilwaith Gwyrdd

3.2.9 Darperir enghreifftiau o asedau y gellid eu hystyried yn seilwaith gwyrdd yn nhaflen y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref, 'The essential role of green infrastructure - eco-towns green infrastructure worksheet' (2008), fel a ganlyn:

- Parciau a gerddi - parciau trefol, parciau gwledig a rhanbarthol, gerddi ffurfiol a phreifat, a thiroedd sefydliadol (er enghraifft mewn ysgolion ac ysbytai).
- Mannau gwyrdd amwynder - manau hamdden anffurfiol, ardaloedd chwarae, cyfleusterau chwaraeon awyr agored, manau gwyrdd tai, gerddi domestig, meysydd pentref, tir comin trefol, manau achlysurol eraill, toeau gwyrdd, perthi, sgwariau dinesig, a choed ac ymylon ar hyd y ffyrdd.
- Rhandiroedd, gerddi cymunedol, ffermydd dinesig, perllannoedd, gerddi to, a thir ffermio cyrion tref.

- Mynwentydd.
- Mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol gwledig, trefol ac o gwmpas trefi, yn cynnwys coetir a phrysgwydd, glaswelltir (er enghraifft twyndir a dolydd), rhostir a gweundir, gwlyptiroedd, dŵr agored a dŵr rhedegog, safleoedd tir llwyd, cynefinoedd craig noeth (er enghraifft clogwyni a chwareli), arfordir, traethau, a Choedwigoedd Cymunedol.
- Coridorau gwyrdd - afonydd a chamlesi yn cynnwys eu glannau, coridorau ffyrdd a rheilffyrdd, llwybrau beicio, a hawliau tramwy. Gall coridorau gwyrdd chwarae rhan hollbwysig yn amddiffyn a chynyddu bioamrywiaeth ac yn gwrthdroi effeithiau darnio cynefinoedd ar fioamrywiaeth. Maent hefyd yn dod ag amrywiaeth o fanteision cymdeithasol ac amgylcheddol eraill, yn cynnwys gwella cymeriad tirwedd leol, a mwy o gyfleoedd mynediad i'r cyhoedd a chyfleoedd ar gyfer defnydd hamdden.
- Gwarchodfeydd natur cenedlaethol a lleol a safleoedd sydd wedi'u dynodi'n lleol ar gyfer cadwraeth natur (er enghraifft Safleoedd Pwysig o ran Cadwraeth Natur etc.).
- Safleoedd archeolegol a hanesyddol.
- Man gwyrdd at ddiben ymarferol megis Systemau draenio cynaliadwy a manau storio dŵr llifogydd.



1. Tai newydd wedi'u gosod o amgylch man agored cyhoeddus deniadol.
2. Drwy ymgorffori nodwedd dŵr a gwaith plannu priodol crëwyd amgylchedd deniadol sy'n ychwanegu at yr ymdeimlad o le.
3. Parc Arfordirol y Mileniwm, Llanelli: yn ymestyn o Harbwr Pen-bre yn y gorllewin i foryd afon Llŵchwr yn y dwyrain, mae'r parc yn cynnwys cyfres o dirweddau, cynefinoedd, mannau a thirnodau gwahanol, wedi'u cysylltu gan lwybr cerdded a beicio.
4. Parc Dinefwr, Llandeilo: Atyniad poblogaidd i ymwelwyr sy'n darparu rhwydwaith eang o lwybrau troed a pharcdir a reolir.
5. Defnydd effeithiol o fan amwynder agored.

Crynodeb Gwerthuso'r Dylunio o ran Seilwaith Gwyrdd:

- ✓ A roddwyd sylw i'r elfennau Seilwaith Gwyrdd y tynnwyd sylw atynt uchod yn y cynigion dylunio? Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys:
 - Rhoi sylw llawn i nodweddion seilwaith gwyrdd o fewn y safle a'r tu allan iddo, a'u hintegreiddio;
 - Digon o fannau gwyrdd agored o fewn datblygiad newydd;
 - Defnyddio systemau draenio trefol cynaliadwy lle mae'n berthnasol;
 - Bod safleoedd o werth ecolegol, daearegol, hanesyddol a thirweddol yn cael eu cydnabod yn briodol yn y cynnig dylunio ac na fydd unrhyw effeithiau niweidiol yn deillio ohono.

Egwyddorion Creu Ymdeimlad o Le a Dylunio: Yr Ardal Leol

4

4.1 Cymeriad

Cymeriad Adeiledig

4.1.1 Caiff cymeriad adeiledig arbennig ardal ei ddiffinio gan gynllun presennol yr ardal ac arddull bensaernïol ei hadeiladau, ei nodweddion, gofodau a strwythurau. Dylid dylunio cynigion datblygu newydd fel bod iddynt gymeriad cadarnhaol sy'n briodol i'r man lle caiff y datblygiad ei leoli, a bod modd eu hintegreiddio iddo. I gyflawni hyn, mae'n bwysig deall tarddiad hanesyddol lle – sut y gwnaeth ddatblygu, a sut y gall datblygiadau newydd ategu a chyfoethogi'r cymeriad adeiledig.


4.1.2 Mae ffurf adeiledig yn cyfrannu at gymeriad, hunaniaeth a chymeriad arbennig lle. Ynghyd ag agweddau eraill fel lles cymdeithasol ac economaidd, mae ffurf adeiledig yn cyfrannu tuag at 'ymdeimlad o le' – y priodweddau sy'n rhoi cymeriad arbennig i le. Mae'n bwysig i ddatblygiadau newydd beidio â bod yn ddiddrwyg-ddidda, heb gymeriad. Mae cynllun a ffurf yr adeiladau yn hanfodol i fywiogi cymeriad lle a chreu amrywiaeth diddordeb.




Caerfyrddin: Prosiect adfywio modern o fewn tref farchnad draddodiadol.



Rhydaman: Adeiladau rhestredig o'r cyfnod Fictoraidd hwyr yn ychwanegu at yr ymdeimlad o le yng nghanol y dref.



Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol: Mae'r gromen wydr drawiadol yn ddarn pwysig o bensaernïaeth fodern sy'n ychwanegiad gwrthgyferbyniol ond eiconig at yr ymdeimlad o le.



Caerfyrddin: Drwy drawsnewid ffordd a fu ar un adeg yn un brysur crëwyd amgylchedd tawel, ystyriol o gerddwyr, rhwng eglwys hanesyddol Pedr Sant ac adeilad mwy newydd Oriel Myrddin.

Treftadaeth Adeiledig: Tarddiad Hanesyddol

4.1.3 Bydd angen i ddatblygiadau newydd barchu'r patrwm datblygu presennol ac integreiddio iddo. Mae gwneuthuriad hanesyddol trefi a phentrefi Sir Gaerfyrddin a'u lleoliad yn ganolog i'w cymeriad, eu hunaniaeth a'u hymdeimlad o le a sut maent yn ffioio i'r ystod amrywiol o dirweddau yn y Sir. Mae'n bwysig bod datblygiadau newydd yn cydnabod y cyd-destun hanesyddol hwn drwy geisio ffurfio ychwanegiadau rhesymegol at y patrymau ffurf trefol sydd yno'n barod a thrwy osgoi ffurfiau adeiladu a chynlluniau ffyrdd safonedig.

4.1.4 Bydd angen i geisiadau am ddatblygiad newydd ddangos dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gyfansoddiad presennol a hanesyddol yr anheddiad lle bwriedir ei godi. Dylai dadansoddi ffurf bresennol yr anheddiad a'i berthynas weledol â'r dirwedd ehangach er mwyn sefydlu a yw ffurf a chynllun y cynigion newydd yn briodol i batrwm presennol yr anheddiad. Dylai'r dadansoddi nodi agweddau cadarnhaol ar ffurf a chynllun er mwyn sicrhau ychwanegiadau cadarnhaol, ac osgoi ffurf a chynllun gwael.



Tref Farchnad: Llanymddyfri



Tref Castell: Cydweli, a ddatblygodd yn wreiddiol oherwydd ei phwysigrwydd strategol



Tref Harbwr: Porth Tywyn, mae harbwr sydd â'i wreiddiau ym myd masnach (glo) wedi'i weddnewid yn farina prysur

4.1.5 Mae i Sir Gaerfyrddin dreftadaeth adeiledig hanesyddol a diwylliannol gyfoethog ac amrywiol gyda rhyw 27 o ardaloedd cadwraeth dynodedig, 470 o Henebion Cofrestredig yn amrywio o nodweddion Cynhanesyddol i rai ôl-Ganoloesol/Modern o ddiddordeb hanesyddol diwylliannol yn ogystal â thros 1,800 o adeiladau rhestredig. Nod y CDLI mewn perthynas â'r amgylchedd adeiledig ac adeiladau hanesyddol, ar y cyd â deddfwriaeth sylfaenol, yw diogelu cyfanrwydd diwylliannol aneddiadau, nodweddion ac adeiladau hanesyddol yn ardal y Cynllun, a chyfrannu lle mae'n berthnasol tuag at wella'r amgylchedd hanesyddol ac adeiledig.



Maes Nott a Chastell Caerfyrddin: Mae Caerfyrddin, fel y dref hynaf yng Nghymru y mae pobl wedi byw ynddi'n ddi-dor, yn gymysgedd o ddatblygiadau newydd a siopau traddodiadol o fewn strydoedd cul wyneb cobls ac ardaloedd siopa modern.

4.1.6 Dylai adeiladau hanesyddol, trefweddau a thirweddau'r Sir gael eu hystyried yn asedau a'u cadw a'u gwella'n gadarnhaol er budd trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae cymeriad arbennig – amrywiol yn aml – y Sir, gyda chefn gwlad nad yw wedi'i ddifetha, treftadaeth ddiwydiannol a chyfoeth o drefi a phentrefi hanesyddol, yn adlewyrchu'r newidiadau a brofwyd drwy'r oesoedd, gan gysylltu'r gorffennol â'r presennol a chynnal hunaniaeth ddiwylliannol unigryw'r ardal.



Mae pentref Cenarth, sy'n pontio'r ffin â Cheredigion, yn cynnwys y rhan hardd o afon Teifi a Phont Cenarth, y mae iddi werth cadwraeth adeiledig sylweddol.



Mae i Gaerfyrddin lawer o hen adeiladau hanesyddol sy'n nodweddu'r amgylchedd adeiledig ac ansawdd yr ardal.



Yr olygfa gyfarwydd o Stryd y Bont, Llandeilo o'r ochr arall i afon Tywi. Mae tu blaen amlwg a lliwgar y tai yn diffinio'r fynedfa hon i'r dref gan atgyfnerthu'r ymdeimlad o le.

4.1.7 Caiff unrhyw gynigion yn ymwneud ag ardaloedd cadwraeth eu hasesu yn ôl eu heffaith ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal. Dylai datblygiadau newydd fod yn unol â diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig yr ardal. Rhestrir ardaloedd cadwraeth dynodedig yn y CDLI ac maent wedi'u dangos ar y Map Cynigion.

Crynodeb Gwerthuso'r Dylunio o ran Cymeriad:

- ✓ Dylai'r cynnig arddangos a dangos dealltwriaeth glir o'r dreftadaeth adeiledig a'r cymeriad presennol a'r ymdeimlad o le;
- ✓ Dylai'r cynnig gydnabod a rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw ddynodiadau treftadaeth adeiledig ar y safle neu gerllaw iddo, a dylai sicrhau yr ymddrinnir â'r rhain yn sensitif yn y cynllun;
- ✓ Dylai'r cynnig gadw neu wella'r ffurf adeiledig bresennol;
- ✓ Dylai'r cynnig gyfrannu'n glir at ymdeimlad o le ardal.

4.2 Lleoli Datblygiadau

4.2.1 Dylid cynnal asesiad cychwynnol o safle datblygiad i ganfod sut bydd amodau ar y safle yn effeithio ar y cynnig ac, i'r gwrthwyneb, pa effaith y gallai'r datblygiad ei chael ar yr ardal o gwmpas. Gallai hyn gynnwys dadansoddiad o'r topograffi a'r tirffurf, wyneb-wedd a microhinsawdd y safle a'r cyffiniau.

Tirffurf a thopograffi


4.2.2 Bydd tirffurf a thopograffi ardal yn dylanwadu ar sut bydd datblygiad newydd yn gweddu i dirwedd, yn cynnwys sut bydd y datblygiad yn edrych o'r ardal o'i gwmpas, yn ogystal â'r golygfeydd o'r datblygiad ei hun. Dylid dylunio datblygiad newydd fel ei fod yn ategu'r ffurf dopograffigol. Er bod patrymau

datblygu hanesyddol yn Sir Gaerfyrddin yn tueddu i fod ar hyd ochr neu waelod dyffrynnoedd, mae aneddiadau a datblygiadau ar linell crib yn bodoli hefyd. Gall datblygiad ar grib fod yn rhy amlwg yn weledol yn aml a dylid ei osgoi yn gyffredinol. Os yw datblygiadau i gael eu lleoli'n agos at linell crib, dylid defnyddio mesurau priodol i leihau eu heffaith, er enghraifft defnyddio coed i'w sgrinio (un ai o'u blaen neu'r tu cefn iddynt yn dibynnu ar y cynnig unigol).

4.2.3 Yn yr un modd gyda safleoedd ar oledd, dylai datblygiad ddefnyddio'r topograffi a pheidio â bod yn rhy amlwg yn y dirwedd. Dylai cynllun yr adeiladau a'r ffurf felly geisio dilyn cyfuchlineddau'r tir yn gyffredinol; bydd hyn yn arwain at berthynas rhwng y datblygiad ei hun a chymeriad yr ardal leol lle mae'r naill yn ategu'r llall.



Cysoni'r ffurf adeileddig â'r tirffurf.



Ymateb dylunio i safleoedd ar oledd – enghreifftiau o dai lefelau gwahan. Gall hyn fod yn gyfle i ddyfeisio atebion dylunio arloesol a chreadigol. Er enghraifft, drwy adeiladu i dir ar oledd, gall y datblygiad ategu'r topograffi a gellir lleihau unrhyw effaith weledol i'r eithaf.


Microhinsawdd

4.2.4 Bydd angen i gynigion dylunio ystyried yr amodau hinsawdd ac amodau'r safle, yn cynnwys cyfeiriad cyffredinol y gwynt, wyneb-wedd (y cyfeiriad neilltuol y mae darn o dir yn ei wynebu) a'r topograffi (sy'n dylanwadu ar gysgod ar raddfa fach a thywyllwch/goleuni). Dylai atebion dylunio geisio lleoli adeiladu fel eu bod yn wynebu'r de er mwyn iddynt gael cymaint â phosibl o wres a golau yn ystod y dydd. Bydd rhoi ystyriaeth fanwl i'r cyfeiriad y mae safle'n wynebu iddo yn sicrhau bod dyluniad y datblygiad mor gynaliadwy â phosibl a bydd yn dylanwadu ar ansawdd ei ddyluniad

a'i berfformiad (gweler adran 4.8, isod). Weithiau bydd rhaid cael adeiladau wyneb-wedd deuol oherwydd newidiadau i dopograffi safle. Lle bynnag mae hynny'n bosibl, dylid dylunio strydoedd yn erbyn prif gyfeiriad y gwynt, i osgoi twnelu gwynt; fodd bynnag, lle nad yw hyn yn bosibl, gellid darparu cysgod drwy blannu. Dylid hefyd ystyried defnydd coed a/neu berthi presennol mewn cynllun, boed hynny fel cysgod neu drwy eu cadw fel seilwaith gwyrdd (gweler adran 3.2.8 uchod).

Crynodeb Gwerthuso'r Dylunio o ran Lleoli Datblygiadau:

- ✓ Mae'r cynigion dylunio yn dangos dealltwriaeth lawn o'r canlynol:
 - Nodweddion tirwedd yr ardal;
 - Cymeriad adeiledig lleol yr ardal;
 - Yr ymdeimlad o le sy'n arbennig i'r ardal honno.
- ✓ Rhaid i gynigion newydd fod mewn cytgod â'r dirwedd leol a chyfrannu at yr ymdeimlad o le, a chyfoethogi'r cymeriad lleol lle bynnag y mae hynny'n bosibl.



Cynigion dylunio ar gyfer Safleoedd Cyflogaeth Dwyrain Cross Hands yn dangos sut yr ymgorfforir coed a pherthi sy'n bodoli'n barod (a rhai newydd); cadw/creu cynefinoedd; defnyddio adeiladau diwydiannol cynaliadwy safonol a defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC).

4.3 Asedau Safle

Manteision Seilwaith Gwyrdd

4.3.1 Mae gweithredu ar sail seilwaith gwyrdd yn cael ei weld yn gynyddol fel rhywbeth llesol, nid yn unig i'r amgylchedd, ond hefyd oherwydd ei botensial i wella iechyd ac egni busnesau a bywydau trigolion lleol a'r cyhoedd. Mae'r manteision yn cynnwys y canlynol:

- Newid hinsawdd - mae pwysigrwydd seilwaith gwyrdd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf mewn ymateb i newid hinsawdd. Gall gweithredu fel hyn chwarae rhan bwysig yn addysgu'r cyhoedd ac yn helpu pobl i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd;
- Iechyd a lles - mae astudiaethau wedi dangos bod trigolion a gweithwyr sy'n byw neu'n gweithio mewn amgylchoedd gwyrdd yn iachach ac yn hapusach eu byd na chymheiriaid nad ydynt yn gallu mynd i fannau gwyrdd yn rhwydd;
- Twf economaidd a buddsoddiad - mae ymchwil wedi dangos bod buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd yn dod â budd ariannol i

ddatblygwyr ar ffurf prisiau gwerthu uwch, yn ogystal â darparu amgylchedd mwy deniadol ar gyfer mewnfuddsoddi;

- Adfywio tir - gall tir a oedd wedi'i ddatblygu'n flaenorol (tir llwyd) ddarparu buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd drwy ei droi'n seilwaith gwyrdd;
- Manteision ecolegol - drwy greu a gwella cynefinoedd, mae seilwaith gwyrdd o fudd i fioamrywiaeth drwy integreiddio i'r amgylchedd adeiledig a galluogi trigolion i werthfawrogi natur.

4.3.2 Caiff y manteision eu gwireddu'n fwyaf llwyddiannus os yw creu seilwaith gwyrdd yn rhan o ddull integredig o ymdrin â datblygu. Ymysg yr asedau y mae angen eu hystyried o safbwynt gwerth tirweddol mae'r canlynol:

Nodweddion tirwedd

4.3.3 Dylai cynigion datblygu gadw nodweddion presennol o werth fel coed a pherthi. Dylid hefyd ystyried plannu a darpariaeth newydd gan fod coed, coetir, mannau agored a pherthi yn gallu cyfoethogi cymeriad lleol lle yn fawr yn ogystal â'i briodweddau ecolegol a hamdden.

4.3.4 Mae ymgorffori coed, llystyfiant arall a nodweddion sydd wedi ymsefydlu yn gallu cyfrannu at ymdeimlad unigryw o le ardal neu anheddfan. Mae cadw nodweddion presennol mewn cynigion yn help i greu lleoedd sy'n arbennig a gall helpu i feddalu effaith newid drwy greu ymdeimlad o barhad sy'n cydnabod hunaniaeth leol.

4.3.5 Yn ogystal â'r amwynder gweledol y gall llystyfiant ei ddarparu, gall coed, perthi, adnoddau dŵr a mannau agored ffurfiol ac anffurfiol fod o fudd i ficrohinsawdd a bioamrywiaeth leol drwy, er enghraifft,



Cadwyd coed aeddfed a man gwyrdd wrth ymyl cwsr dŵr gan roi cymeriad neilltuol i'r datblygiad newydd.

ddarparu cysgod rhag y gwynt ac amrywiaeth cynefinoedd i fflora a ffawna. Gallant hefyd gyfrannu tuag at iechyd a lles cymunedau lleol drwy, er enghraifft, sgrinio safle rhag defnyddiau eraill.

4.3.6 Ymysg y nodweddion eraill y dylid, lle mae'n bosibl, eu cadw mewn datblygiad newydd mae cyrsiau dŵr (gweler seilwaith gwyrdd, adrannau 3.2.8 a 4.3.1, uchod), yn ogystal ag adeiladau a waliau gwreiddiol. Dylai asedau llai amlwg fel nodweddion archeolegol gael eu nodi yn yr arolwg safle ac ni ddylai'r cynnig effeithio arnynt.

Plannu Tirweddol a Choridorau Gwyrdd

4.3.7 Dylai plannu gael ei ystyried yn gynnar mewn cynnig datblygu fel rhan o'r cynllun i ddylunio'r dirwedd. Mae plannu yn ateb sawl diben, yn cynnwys: rhannu'r ffurf adeiledig yn wahanol elfennau, sgrinio, diffinio adeiladau yn ogystal â darparu manteision amwynder a manteision ecolegol.

4.3.8 Yn ogystal â chynnal nodweddion tirwedd sy'n bodoli'n barod, gall plannu gyfrannu tuag at ddarparu rhwydwaith o 'goridorau gwyrdd' o fewn datblygiad newydd, lle câi coed a pherthi

sydd yno'n barod eu cadw a'u cyfoethogi drwy waith tirweddu newydd. Mae coridorau gwyrdd o'r fath yn gallu cael yr effaith o integreiddio cefn gwlad i'r datblygiad newydd. Bydd y coridorau hyn hefyd yn creu potensial ar gyfer mwy o fioamrywiaeth a gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd.

4.3.9 Dylid cyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Atodol perthnasol eraill, yn arbennig Bioamrywiaeth, i sicrhau cysondeb yn y dull gweithredu.



Defnyddio coed yn effeithiol i feddalu ac ategu'r ffurf adeiledig.

Terfynau safleoedd ac aneddiadau

4.3.10 Yn aml caiff datblygiadau newydd eu lleoli ar ymyl anheddiad. Yn wir, mae'r CDLI yn dyrannu tir mewn lleoliadau o'r fath i alluogi aneddiadau i ehangu. Mae'r lleoliadau hyn yn aml yn amlwg yn weledol, a nhw i bob diben yw'r ffin rhwng y ffurf adeiledig a chefn gwlad. O ganlyniad, bydd angen i gynigion datblygu ar ymyl aneddiadau ddangos bod yr effeithiau gweledol wedi cael eu hystyried yn llawn a bod cynllun ffatriol yn cael ei gyflwyno sy'n ategu'r dirwedd wrth ymyl.

4.3.11 Bydd lleoliadau ar ymyl aneddiadau yn aml yn diffinio'r fynedfa i dref neu bentref o gyfeiriad neilltuol felly mae dylunio deniadol sy'n ymdoddi i'r anheddiad a hefyd i gefn gwlad o amgylch yn holl bwysig. Bydd plannu tirweddol priodol ynghyd ag amrywiaeth yn y ffurf adeiledig yn creu cyfansoddiad deniadol ac ymyl bositif sy'n gweddu i'r trawsnewidiad o'r trefol i'r gwledig.



Datblygiad gwael ar gyrion anheddiad, gyda ffurf adeileddig ddiflas, undonog, ffensio sy'n rhy amlwg yn weledol a thirwedd annigonol.

I greu datblygiad deniadol a chadarnhaol ar gyrion anheddiad byddid yn darparu amrywiaeth yn y plannu tirweddol a'r ffurf adeileddig.



Llinell adeiladu gyferbyniol yn ychwanegu amrywiaeth

Ymgorffori man agored

Tirweddau gwyrdd yn fframio datblygiad

Crynodeb Gwerthuso'r Dylunio o ran Asedau Safle:

- ✓ Dylai cynigion newydd nodi priodoleddau a nodweddion presennol y safle ac asesu'u gwerth;
- ✓ Dylai'r asesiad restru'r priodoleddau a'r nodweddion sy'n cyfrannu i'r cymeriad lleol a'r ymdeimlad o le;
- ✓ Dylai'r cynnig gadw a gweithio gyda nodweddion gwerthfawr safle, gan eu hintegreiddio i'r datblygiad;
- ✓ Dylai'r cynnig ymateb yn gadarnhaol i nodweddion lleol yr ardal a'i hymdeimlad o le.


4.4 Hygyrchedd a gallu symud yn rhwydd

4.4.1 Mae hygyrchedd a gallu symud yn rhwydd yn ddwy o agweddau pwysicaf unrhyw ddatblygiad newydd. Mae sicrhau datblygiad lle rhoddir sylw i gerbydau, cerddwyr a beicwyr yn hynod o bwysig. Bydd arfarniad cychwynnol o'r rhwydwaith llwybrau cerdded, beicio a marchogaeth a'r hierarchaeth strydoedd yn yr ardal gyfagos yn help i benderfynu ar lwybrau mynediad i ddatblygiad newydd. Mae'n hanfodol fod deialog yn cael ei gynnal yn gynnar rhwng y dylunydd ac adrannau Prifffyrdd a Chynllunio'r awdurdod lleol er mwyn cael cyngor ar faterion mynediad a dylunio.

4.4.2 Mae dyluniad strydoedd a hygyrchedd o fewn y safle a'r tu hwnt iddo yn cael eu hystyried o bwys tyngedfennol er mwyn darparu dulliau teithio ar wahân i'r car a sicrhau ansawdd da yn yr amgylchedd. Rhaid anelu bob amser at drefniant strydoedd a ffyrdd mynediad eraill sy'n creu mannau y mae modd symud drwyddynt, a dylai fod cysylltiad agos rhyngddynt â'r rhwydwaith mynediad ehangach.

4.4.3 Mae creu cysylltiadau rhwng datblygiadau newydd a'r rhai sy'n bodoli'n barod yn hanfodol er mwyn creu lle

Dylai fod modd symud drwy'r rhwydwaith strydoedd, i gysylltu'r datblygiad ag ardaloedd cyfagos.



llwyddiannus, llawn bywyd. Hefyd, mae creu hierarchaeth glir o lwybrau drwy ddatblygiad newydd yn bwysig er mwyn eglurdeb a gallu symud yn rhwydd drwy'r ardal. Er enghraifft, bydd cael prif ffordd drwodd gydag is-ffyrdd yn arwain at ffyrdd mynediad yn darparu eglurdeb da i safle. Dylai cynigion o'r fath leihau'r angen i ddefnyddio'r car ac annog cerdded neu feicio.

4.4.4 O ran y rhwydweithiau mynediad presennol, mae'n hanfodol fod y rhain yn cael eu hamddiffyn lle bynnag y mae hynny'n bosibl wrth ddylunio datblygiad newydd. Dylid nodi bod hawliau tramwy cyhoeddus yn ystyriaethau cynllunio perthnasol ac y dylid felly eu hymgorffori mewn dylunio newydd. Dylid darparu mesurau lliniaru priodol os nad oes modd osgoi effeithio ar y ddarpariaeth mynediad bresennol.

Trafnidiaeth Gyhoeddus

4.4.5 Lle mae'n bosibl, dylai fod cysylltiad rhwng datblygiad newydd â chlodiant cyhoeddus neu dylai fod yn hygyrch i dtrafnidiaeth gyhoeddus (yn dibynnu ar faint cynllun unigol). Mewn rhai achosion, gallai fod yn addas i Ddatblygwyr a'r Cyngor drafod gyda'r cwmni trafndiaeth lleol y potensial i newid llwybr bws presennol a / neu greu arosfannau bws newydd. Bydd hyn yn cynnig dewis i drigolion y dyfodol o ran sut i deithio a bydd yn help i leihau'r ddibyniaeth ar geir preifat. Bydd hyn yn golygu lleihau effaith amgylcheddol datblygiad newydd yn ogystal â darparu mwy o gyfleoedd a gwella profiad cerddwyr, beicwyr a'r rhai sy'n marchogaeth. Mae manteision iechyd ac amwynder amlwg yn gysylltiedig â hyn.

Crynodeb Gwerthuso'r Dylunio o ran Hygyrchedd a Gallu Symud yn Rhwydd:

Dylai cynlluniau datblygu:

- ✓ nodi hygyrchedd gwasanaethau trafndiaeth lleol mewn perthynas â'r safle;
- ✓ nodi lle mae angen gwasanaethau trafndiaeth lleol newydd neu well gwasanaethau, ac a fydd y cynnig ei hun yn darparu neu'n cyfrannu at y gwasanaethau newydd hyn;
- ✓ nodi llwybrau cerdded, llwybrau marchogaeth a llwybrau beicio presennol, a dylai dynnu sylw at hygyrchedd y rhain;
- ✓ dangos yn glir sut y caiff mynediad a chysylltiadau eu gwireddu rhwng y datblygiad a'r rhwydwaith strydoedd/ffyrdd cyfagos.

4.5 Tir y Cyhoedd

4.5.1 Tir y cyhoedd yw'r unig ran o le y gall pob aelod o'r cyhoedd ei gweld, felly mae'n bwysig fod datblygiadau newydd yn darparu amgylcheddau safonol, deniadol a diogel i bawb. Dylid ystyried pob agwedd o'r datblygiad, nid dim ond y mannau cyhoeddus eu hunain (mannau gwyrdd, mannau chwarae, sgwariau etc), ond hefyd safle adeiladau, wynebau, goleuadau, celfi stryd a phlannu. Bydd gwaith manwl fel hyn yn gwella'r amgylchedd ac yn help i ddiffinio'r "ymdeimlad o le". Mae'n bwysig fod pobl yn edrych dros dir y cyhoedd a bod posibilrwydd felly ei fod yn cael ei oruchwyllo. Dylai datblygiadau newydd fod â ffenestri a drysau sy'n agor i fannau cyhoeddus; mae hyn yn darparu goruchwyliaeth ac yn help i greu amgylcheddau saff a diogel i fyw a gweithio ynddynt.

4.5.2 Dylai adeiladau gael eu lleoli fel bod tir y cyhoedd yn cael ei oruchwyllo. Mae datblygiadau tai yn arbennig o effeithiol yn darparu goruchwyliaeth. Mewn datblygiadau tai newydd, dylid dylunio ffryntiadau gweithredol (lle mae ffasâd ffrynt yr adeilad, yn cynnwys y brif fynedfa, yn wynebu'r stryd ac yn agor tuag ati) i edrych dros dir y cyhoedd.

Dylai ffenestri, yn arbennig o leoedd byw, edrych dros ffryntiadau stryd. Mae goruchwyllo yn arbennig o bwysig o lefel llawr daear datblygiad, ac yn llai felly o ffenestri ar risiau neu mewn ystafelloedd ymolchi. Lle mae waliau talcen yn wynebu tir y cyhoedd, dylid cynnwys ffenestri mewn lleoedd byw a dylid osgoi waliau talcen gwag.

4.5.3 Ymysg y dulliau eraill o oruchwyllo tir y cyhoedd a 'dylunio i ddileu troseddu' mae darparu goleuadau stryd digonol a defnyddio rhywogaethau planhigion sy'n rhwystro mynediad ac yn lleihau'r cyfle i droseddu heb i neb weld. O ran llwybrau i gerddwyr, dylai'r rhain fod yn llydan heb unrhyw gorneli cudd a gyda llinellau gweld clir.



Ychwanegu diddordeb gweledol i ardal drwy defnyddio tirweddau caled a meddal.

4.5.4 Bydd y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yng nghanol trefi yn elwa o dir y cyhoedd, felly mae'n briodol y dylai datblygiadau o'r fath gyfrannu at welliannau i dir y cyhoedd a thuag at ei gynnal a'i gadw. Gellir cyflawni hyn drwy gyfraniadau datblygwyr (Cytundebau Adran 106). Ar yr un pryd, mae'n hanfodol fod ardaloedd tir y cyhoedd o fewn cynigion newydd (er enghraifft, mannau agored ar safleoedd tai) yn cael eu dylunio fel eu bod yn rhwydd eu cynnal a'u cadw a bod strwythur rheoli'n cael ei sefydlu i'w harwain a'u hamddiffyn. Rhaid i ddatblygwyr tir i'r cyhoedd geisio sicrhau bod sylw'n cael ei roi ar y cam dylunio i unrhyw gynnal a chadw dianghenraid a bod cynllun cynnal a chadw'n cael ei sefydlu lle mae hynny'n angenrheidiol.



Mae tai yn wynebu dros lwybr troed yn gwneud i bobl deimlo'n saffach.

Parcio Ceir

4.5.5 Dylai cynigion datblygu ymgorffori digon o le parcio ar gyfer nid dim ond ceir ond hefyd fathau eraill o drafnidiaeth fel beiciau a beiciau modur. Rhaid i'r parcio fod yn ddiogel, yn gyfleus ac yn ddeniadol a dylai gyfrannu at ansawdd yr amgylchedd a'r ymdeimlad o le. Mae polisi Llywodraeth Cymru ar ddarpariaeth parcio breswyl wedi'i nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru, ynghyd â TAN 18. Fodd bynnag, mae Manual for Streets yr Adran Drafnidiaeth yn mynd i fwy o fanylder o ran darpariaeth parcio i feiciau a beiciau modur yn ogystal â cheir.

4.5.6 Dylid ymgorffori darpariaeth parcio yn y cynnig dylunio o'r cychwyn cyntaf, oherwydd gall parcio gael effaith sylweddol ar ansawdd datblygiad newydd. Bydd angen i'r ddarpariaeth parcio ceir o fewn datblygiad ddal y ddysgl yn wastad rhwng y gofynion a nodir yn y canllawiau perthnasol a'r awydd i greu tir cyhoeddus o ansawdd da.

4.5.7 Dylai datblygiadau osgoi tirwedd lle mae parcio'n dominyddu, oherwydd byddai hynny'n tanseilio cymeriad ac ansawdd y lle. Dylid dylunio mannau parcio yn sensitif; bydd defnyddio cymysgedd o opsiynau parcio megis garejys ar-y-llain, ierdydd a pharcio ar-y-stryd

yn help i atal cerbydau modur rhag dominyddu'r strydwedd. Dylid cyfeirio at safonau parcio ceir y Cyngor.



Mae creu parth cerddwyr, celfi stryd deniadol ac ymdriniaeth sensitif mewn cynllun i adfywio adeiladau rhestredig yn help i ychwanegu at yr ymdeimlad o le.



Parcio ar lard



Parcio ar-y-safle (ar y dreif)



Parcio ar-y-stryd

Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) Beth yw SDCau?

4.5.8 Mae cyflwyno SDCau i gynigion datblygu yn darparu cyfleoedd i reoli dŵr ffo wyneb mewn ffordd sy'n lleihau effeithiau datblygiad. Gall ymyriadau o'r fath effeithio ar ansawdd a chyfaint dŵr ffo oddi ar ffyrdd, ac maent hefyd yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd amwynder a bioamrywiaeth mewn lleoliadau gwledig a threfol. Gall cynlluniau llwyddiannus arafu llif dŵr, gan gyfrannu drwy hynny at leihau'r perygl llifogydd ac amddiffyn ansawdd dŵr yn ogystal â lleihau unrhyw rwymedigaethau a chostau cynnal a chadw tymor hir. Dylid cyfeirio at Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd er mwyn arwahanu llif dŵr brwnt a dŵr wyneb ac er mwyn cydbwysu'r dŵr wyneb a waredir drwy system gyfun leol Bae Caerfyrddin. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i lofnodi gan Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Dŵr Cymru Welsh Water a Chyfoeth Naturiol Cymru.

4.5.9 Lle mae'n ddichonadwy, mae SDCau yn darparu dull amgen yn lle draeniau confensiynol, ar ffurf pibellau, drwy ddulliau fel palmentydd athraidd, ffosydd cerrig, toeau gwyrdd, pantiau a phyllau. Wrth ymchwilio i'w dichonoldeb, mae'n hanfodol cytuno gyda'r

awdurdod lleol neu'r ymgymwrwr carthffosiaeth yn ystod y cam cynllunio ar y trefniadau mabwysiadu a rheoli ar gyfer seilwaith SDCau a'i holl elfennau draenio. Gall hyn sicrhau bod y seilwaith SDCau yn cael ei gynnal a'i gadw'n iawn a'i fod yn gweithio'n effeithiol gydol oes y cynllun.

Y cyd-destun polisi a chyfreithiol

4.5.10 Mae'n ofynnol yn ôl Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Atodlen 3 – nad yw wedi cychwyn eto), fod datblygiadau newydd yn cynnwys nodweddion SDCau sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod am gyhoeddi safonau cenedlaethol dros dro ar sail gynghori nes bydd wedi penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o wreiddio egwyddorion SDCau mewn datblygiadau newydd yn y tymor hwy. Hyd nes y bydd y Byrddau Cymeradwyo SDCau wedi'u sefydlu, gall Adran Gwasanaethau Technegol (Hydroleg) yr Awdurdod barhau i helpu datblygwyr i sefydlu SDCau fel rhan o drefn gydweithio. Cynghorir datblygwyr i ymgynghori'n fuan â'r Awdurdod (a lle mae hynny'n briodol â phartner asiantaethau fel Cyfoeth Naturiol Cymru) er mwyn gwireddu'r canlyniadau gorau posibl i bob parti a sicrhau bod modd mabwysiadu unrhyw systemau wedi hynny.

4.5.11 Er nad yw Atodlen 3 wedi cychwyn eto, mae ymrwymiad polisi cadarn i roi dulliau draenio cynaliadwy ar waith yn Sir Gaerfyrddin. Mae Polisi SP2: Newid Hinsawdd y CDLI yn amlinellu cyfraniad posibl SDCau a dylunio sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd tuag at ddarparu datblygiadau cynaliadwy. Mae Polisi EP3: Draenio Cynaliadwy y CDLI yn ei gwneud yn ofynnol ymchwilio'n llawn i effeithiolrwydd ymgorffori SDCau a bod rhaid i'r manylion a'r opsiynau sy'n deillio o'r ymchwiliad hwn ddangos bod yna resymau y gellir eu cyfiawnhau dros beidio ag ymgorffori SDCau yn y cynllun. I'r perwyl hwn, mae Polisi EP3 yn ceisio adlewyrchu'r polisi cenedlaethol ar ffurf Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 15.

GlawLif: Llanelli a Phorth Tywyn

4.5.12 Mae enghreifftiau arobryn o systemau draenio cynaliadwy yn cael eu darparu ar draws Sir Gaerfyrddin. Mae cynlluniau o'r fath yn tystio i ffordd arloesol o ymdrin â chreu ymdeimlad o le, a hynny drwy gydweithio. Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) yn datblygu ac yn defnyddio atebion newydd, arloesol i reoli faint o ddŵr wyneb sy'n mynd i'r carthffosydd yn ardal Llanelli. Drwy adeiladu ar wersi a ddysgwyd o enghreifftiau rhyngwladol o gynlluniau dŵr wyneb yn Malmö, (Sweden) a Portland (Oregon, UDA), mae DCWW wedi



Defnyddio Pantiau fel rhan o SDCau, Llanelli.



Defnyddio SDCau yn Ysgol Stebonheath, Llanelli.

Defnyddio SDCau ar stryd yn Llanelli.



creu nifer o atebion dŵr wyneb ei hun y mae'n eu galw yn GlawLif. Gellir ymgorffori atebion o'r fath mewn datblygiadau newydd, neu eu gosod yn y systemau carthffosydd presennol, ac maent yn cynnwys Basnau a Mannau Plannu, Pantiau, Palmentydd hydraid, Stribedi hidlo, Sianeli glaswelltlog a Storfeydd danddaear.

4.5.13 Mae angen arbennig am GlawLif yn Llanelli gan fod yr ardal yn gweld cymaint bron o ddŵr storm yn ei rhwydwaith ag Abertawe, er gwaethaf y ffaith fod Abertawe'n gwasanaethu teirgwaith y nifer o eiddo, a theirgwaith yr arwynebedd o'i chymharu â Llanelli. Un prosiect sydd wedi'i gwblhau yw adeiladu pant ar gae chwarae Rhodfa'r Frenhines Mary. Mewn cyfnodau o law trwm, mae'r pant yn dal y dŵr ac yn gadael iddo ymdreiddio'n raddol bach i uned storio danddaear, cyn ei ryddhau i'r rhwydwaith carthffosydd. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n cymryd mwy o amser i'r dŵr ymdreiddio i'r rhwydwaith. Plannwyd amrywiaeth o blanhigion a choed diddorol yn y pant, a chafodd y rhain eu dewis yn arbennig oherwydd eu gallu i amsugno dŵr. Cost y prosiect oedd £850,000 a'r disgwyl yw y bydd yn arbed tua 4,365,000,000 litr o ddŵr y flwyddyn rhag mynd i'r carthffosydd.

4.5.14 Mae Polisi EP1: Adnoddau ac Ansawdd Dŵr y CDLI yn cydnabod bod dŵr yn eithriadol o werthfawr fel adnodd. Lle bynnag y mae hynny'n bosibl dylai cynigion geisio ymgorffori technegau arbed dŵr yn cynnwys cynaeafu dŵr glaw ac ailgylchu dŵr llwyd. O ran ansawdd dŵr, cydnabyddir yr angen i wella'r amgylchedd dŵr drwyddo draw a hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ddŵr er budd pobl a bywyd gwyllt. Gellir gwella ansawdd dŵr drwy nifer o fesurau yn cynnwys dylunio effeithiol, adeiladu a gweithredu systemau carthffosiaeth, defnyddio gwlyptiroedd/mannau gwyrdd i liniaru llifogydd, defnyddio SDCau a dylunio er mwyn defnyddio dŵr yn gynaliadwy.

Crynodeb Gwerthuso'r Dylunio o ran Tir y Cyhoedd:

- ✓ i sicrhau gwell diogelwch, dylid dylunio ffryntiadau adeiladau fel eu bod yn edrych dros strydoedd a mannau cyhoeddus;
- ✓ dylid creu llwybrau diogel drwy'r datblygiad i gerddwyr a beicwyr, drwy iddynt fod yn ngolwg pobl ac wedi'u dylunio'n briodol (e.e. goleuadau stryd);
- ✓ dylid dylunio darpariaeth briodol ar gyfer parcio ceir mewn cynllun; dylai fod yn ddiogel, yn ddeniadol ac ni ddylai ddominyddu'r datblygiad;
- ✓ dylid ystyried cyflwyno draenio cynaliadwy mewn cynigion datblygu lle mae hynny'n bosibl.

4.6 Ffurf y Datblygiad

Strydoedd a Ffyrdd

4.6.1 Tan y blynyddoedd diwethaf, bu tuedd i ddylunio datblygiadau o amgylch symudiadau ceir, ar sail meini prawf dylunio technegol y ffyrdd. Nid oedd y drefn honno, lle nad oedd strydoedd yn ddim ond sianeli i gerbydau symud ar eu hyd yn eu hanfod, yn gwneud fawr i wella ardal; yn hytrach, roedd yn erydu'r ymdeimlad o le am ei bod yn arwain at ddatblygu strydoedd unfurf, llinol.

4.6.2 Erbyn hyn mae pobl wedi dechrau edrych o'r newydd ar strydoedd a'u rôl mewn bywyd modern mewn ffordd fwy holistaidd. Mae rôl strydoedd mewn datblygiadau newydd yn cael ei hystyried bellach yn ganolog i weithgareddau cymdeithasol a hamdden, ac maent yn cael eu dylunio bellach gan roi cymaint o sylw i gerddwyr a beicwyr ag i fodurwyr. Dylai datblygiadau newydd mawr felly osgoi creu cynlluniau diflas, i gyd yr un fath; yn hytrach, dylent sicrhau bod y cysyniad dylunio yn glir wrth ddiffinio mannau penodol sydd â hierarchaeth strydoedd ac amrywiaeth dwyseddau o fewn y ffurf adeiledig.

4.6.3 Dylai datblygwyr edrych ar y Manual for Streets (2007) wrth ddylunio eu cynlluniau.

Bydd y Manual yn darparu canllawiau ymarferwyr sy'n ymwneud â dylunio strydoedd preswyl ac addasiadau i rhai presennol. Bydd hierarchaeth strydoedd, gyda mannau cyhoeddus cysylltiol, yn rhoi hygyrchedd hwylus i bobl (boed nhw'n drigolion, yn siopwyr neu'n weithwyr) ac yn ei gwneud yn hawdd dod o hyd i'r ffordd, yn ogystal â chynnig dewisiadau o ran ble i symud o gwmpas a chwrdd ag eraill.

4.6.4 Mae i hierarchaeth strydoedd glir fanteision hefyd o ran diogelwch y ffyrdd. Bydd osgoi darnau hir di-dor o ffordd yn golygu nad yw gyrwyr yn gallu gweld mor bell a bydd yn help i ostwng cyflymder traffig, gan gynyddu diogelwch cerddwyr, beicwyr a'r rhai sy'n marchogaeth drwy hynny. Gellir rhoi mesurau gostegu traffig eraill ar waith drwy newid wyneb y ffordd (e.e. rhoi wyneb mwy garw i annog pobl i arafu) neu drwy ddefnyddio wynebau sy'n cael eu rhannu (sy'n help i arafu cyflymder traffig ac yn annog mwy o ddefnydd gan gerddwyr a beicwyr).

4.6.5 Dylid cyfeirio at yr astudiaeth achos yn Adran 6, sy'n ymgorffori llawer o'r ffactorau a nodwyd uchod, yn ogystal â materion eraill megis pwysigrwydd cysylltu dyluniad rhwydwaith strydoedd newydd â dyluniad yr ardal o amgylch, gan sicrhau parhad.



Mae defnyddio dulliau gostegu traffig a nodweddion tirwedd yn help i gynnal ymwybyddiaeth gyrwyr ac yn help i wella amwynder a diogelwch ardal.

Blociau Datblygu

4.6.6 Dylai datblygiad newydd gael ei greu o flociau datblygu sydd wedi'u diffinio'n glir, gyda'r adeiladu'n wynebu fel eu bod yn pwysleisio rhaniad clir rhwng mannau cyhoeddus a phreifat. Gellir cyflawni hyn drwy gael tu blaen adeiladau'n wynebu'r strydoedd a'r cefnau'n wynebu'r ardaloedd preifat. Y dyluniadau mwyaf llwyddiannus yw'r rhai sy'n sefydlu'r rhaniad hwn orau; nid yn unig y maent yn cyfrannu tuag at wneud i bobl (boed nhw'n drigolion, yn weithwyr neu'n ymwelwyr) deimlo'n saff a diogel, ond gallant ychwanegu at gymeriad y datblygiad a helpu i greu ymdeimlad o le.



Datblygiad sy'n defnyddio hierarchaeth strydoedd glir a chymysgedd amrywiol o arddulliau tai. Mae wedi'i integreiddio â Llwybr Arfordirol Llanelli a cheir mynediad iddo drwy gyswllt uniongyrchol â'r llwybr cerdded/beicio presennol.

4.6.7 Yn gyffredinol dylai blociau datblygu fod yn ddigon bach i ganiatáu cymysgedd o arddulliau a dylent sicrhau bod hierarchaeth strydoedd glir. Bydd yr ardal o gwmpas yn dylanwadu ar y datblygiad a bydd angen iddo ategu'r ffurf adeiledig bresennol o ran yr arddull adeiladu, mynediad a chysylltiadau.

4.6.8 O ran cynlluniau tai, gellir defnyddio nifer o arddulliau gwahanol mewn blociau datblygu, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol fel topograffi a natur y ffurf adeiledig o amgylch. Gallai'r mathau o ddatblygiad gynnwys ffyrdd pengaead wedi'u dylunio'n sensitif, fel tai cowrt. Mewn ymateb i newidiadau mewn

goled a thopograffi, gellir defnyddio mathau mwy arloesol o ddatblygu, megis tai tri llawr neu lefelau gwahân. Mewn lleoliadau ar ymyl anheddiad, bydd datblygu ffyrntiadau deniadol yn help i ddiffinio'r fynedfa i'r dref o'r cyfeiriad neilltuol hwnnw ac i gyfoethogi ymdeimlad ardal o le, yn enwedig os yw'n adlewyrchu'r cymeriad pensaernïol yn rhywle arall yn y dref.



Enghraifft o ddylunio o safon uchel ar ffordd bengaead.

Enghraifft o gynnig yn defnyddio amrywiaeth o flociau datblygu a mannau agored.

Perthi ac Ardaloedd Coediog


- perthi sydd yno'n barod yn diffinio'r lleiniau datblygu
- lle mae'n briodol, caiff perthi a choed eu cadw a'u gwella lle mae angen

Man Agored Bach

- man agored trionglog bach wedi'i fframio â ffryntiadau cryf gydag eiddo'n edrych yn uniongyrchol dros y tir, sy'n ddigon mawr i fod yn fan chwarae anffurfiol

Cyffordd Arwyneb Rhannu

- gall weithredu fel mesur naturiol i ostegu traffig
- câi'r sgwâr ei fframio â mannau agored ac adeilad tirnod
- mae'n golygu bod modd symud yn ddirwysr rhwng mannau gwyrdd/agored



Man Agored

- man agored wedi'i fframio â thai sylweddol i'r de a ffryntiad lled-ffurfiol o dai sengl a/neu dai pêr
- gellir darparu man chwarae lleol neu fan chwarae lleol â chyfarpar yn y man agored

Datblygiad Ffryntiad Allweddol

- mae tu blaen yr adeiladau'n creu ffryntiad gweithredol ac mae cyfle i ddarparu gwyliadwriaeth naturiol neu 'lygaid ar y stryd'.

4.6.9 Dylai mannau agored cyhoeddus gael eu lleoli lle mae'n debygol y gwneir defnydd sylweddol ohonynt, er enghraifft lle mae strydoedd yn cwrdd. Dylai ffryntiadau sydd wedi'u diffinio'n dda edrych drostynt i gynyddu diogelwch. Gall mannau agored amrywio o ran maint, gyda Man Chwarae Lleol neu Fan Chwarae Lleol â Chyfarpar yn cael eu darparu ynddynt. Gall mân ardaloedd agored llai hefyd fod o werth i ddatblygiad newydd; weithiau gall hyn fod yn gyfle i arddangos celfi stryd arloesol i gyfoethogi cymeriad yr ardal, neu efallai y bydd yn ddigon mawr i ymgorffori lle chwarae anffurfiol. Dylid cyfeirio at y Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Gofynion Hamdden a Mannau Agored i Ddatblygiadau Newydd.

4.6.10 Ymdriniwyd uchod â phwysigrwydd ffryntiadau i ddatblygiad newydd, o safbwynt goruchwyllo a diogelwch. Mae natur ddi-dor ffryntiadau mewn datblygiad yn dibynnu ar ble mae wedi'i leoli. Ar y cyfan bydd ffryntiadau mewn stryd drefol yn ddi-dor; bydd hynny'n atgyfnerthu'r ymdeimlad o ddiogelwch a bydd yn gwneud i bobl deimlo'n saff wrth iddynt gerdded drwyddynt. Gall dyluniad ffryntiadau mewn lleoliadau o'r fath gyfoethogi ardal (os caiff ei wneud yn sensitif) a gall hefyd helpu i greu ymdeimlad o le.

4.6.11 Mewn datblygiad tai newydd mae mwy o hyblygrwydd i arbrofi â ffryntiadau. Gallai hyn olygu darparu amrywiaeth eang o fathau o dai. Gallai datblygiad mwy gynnwys sawl ardal o dai rhes neu dai pâr, gyda ffryntiadau sydd bron yn ddi-dor, yn ogystal â thai mwy, ar wahân, lle mae bylchau yn y ffryntiadau i gynnwys y cwrtiliau mwy. Ym mhob achos, fodd bynnag, mae'n bwysig trin mannau cyhoeddus a phreifat fel sydd wedi'i amlinellu ym mharagraffau 4.5.1 a 4.5.2 uchod, fel nad oes unrhyw ardaloedd yn cael eu gweld fel rhai nad ydynt yn gynhwysol. Dylid cyfeirio at Ddeiliadaeth gymysg ym mharagraff 4.7.6 isod.



Datblygiad ffryntiad preswyl newydd.



Datblygiad ffryntiad defnydd cymysg gyda lle byw uwchben y siopau.




Eglurdeb a Gallu Symud yn Rhwydd Drwy Ardal

4.6.12 Fel y crybwyllwyd uchod, mae darparu cynllun strydoedd y gellir symud yn rhwydd drwyddo, sy'n integreiddio'n dda â chymeriad a ffurf yr ardal o amgylch, yn allweddol er mwyn sicrhau datblygiad sydd wedi'i ddylunio'n gynaliadwy. Drwy greu amryw o lwybrau deniadol drwy safle, o fewn hierarchaeth strydoedd sydd wedi'i diffinio'n dda, cynyddir y rhwyddineb hwn ac mae'n annog mwy o gerdded a beicio a llai o ddibyniaeth ar y car.

4.6.13 Atgyfnerthir eglurdeb datblygiad pan fydd yn cynnwys nodweddion a chynllun hawdd ei adnabod sy'n golygu bod modd symud yn rhwydd o amgylch y safle. Mae defnyddio tirnodau a nodweddion amlwg ar fannau allweddol o fewn y safle yn ffordd effeithiol o gynyddu eglurdeb. Bydd pobl yn uniaethu â nodweddion o'r fath sydd nid yn unig yn help i ganfod eich ffordd ond hefyd yn cyfoethogi cymeriad safle. Mae defnyddio adeiladau tirnod, sgwariau cyhoeddus neu fannau agored yn rhai enghreifftiau o'r nodweddion hyn. Gellir cynyddu eglurdeb safle mewn nifer o ffyrdd, yn cynnwys amrywio'r cymeriad rhwng gwahanol rannau o'r safle – gallai rhan o'r safle fod yn serth a

byddai angen arddulliau adeiladu pensaernïol penodol i ymdopi â'r topograffi, tra byddai angen ffryntiadau cryf eraill mewn rhan arall o'r datblygiad i bwysleisio mynedfa amlwg i'r safle.

Eglurdeb a Gallu Symud yn Rhwydd drwy Ardal Mae llinellau adeiladu cryf yn darparu parhad drwy ddatblygiad ac yn atgyfnerthu'r gallu i symud yn ôl ac ymlaen rhyngddo a'r ardaloedd o'i gwmpas. Mae adeiladau tirnod hefyd yn help i ddarparu eglurdeb ar y safle drwy ddynodi gofodau neu fannau allweddol.



Mae adeiladau tirnod yn ganolbwynt sy'n gallu gwneud datblygiad yn fwy cofiadwy ac yn gliriach.

Crynodeb Gwerthuso'r Dylunio o ran y Ffurf Adeiledig:

- ✓ dylai cynigion datblygu preswyl a chynigion defnydd cymysg mwy sefydlu hierarchaeth strydoedd glir;
- ✓ dylai'r strydoedd fod â chysylltiadau mynediad priodol â'r ffurf adeiledig a'r rhwydwaith ffyrdd presennol;
- ✓ dylid dylunio'r strydoedd fel eu bod yn ddiogel i bob math o ddefnyddiwr;
- ✓ dylid ystyried yr ymdeimlad o le drwy sylweddoli beth fydd profiad defnyddwyr o'r datblygiad wrth iddynt symud drwyddo;
- ✓ dylai'r cynllun sefydlu blociau datblygu sydd wedi'u diffinio'n dda, gyda ffryntiadau stryd sydd wedi'u ddiffinio'n dda;
- ✓ dylid gwahaniaethu'n glir rhwng mannau preifat (eiddo unigol) a chyhoeddus (e.e. palmentydd, llwybrau beicio, mannau agored at ddefnydd hamdden).



Y Goleudy, Dafen. Safle Cyflogaeth, Llanelli



Y Sospan ac Ardal Doc y Gogledd, Llanelli

4.7 Defnyddiau a Gweithgareddau

Cyfleusterau Cymunedol


4.7.1 Yng nghyswllt datblygiadau tai newydd, mae'n bwysig canfod a oes angen cyfleusterau cymuned newydd neu a allai'r trigolion arfaethedig ddefnyddio cyfleusterau sy'n bodoli'n barod yn yr anheddiad. Mae cyfleusterau cymunedol yn gwneud cyfraniad hollbwysig i ba mor fywiog yw cymdogaethau – yn amrywio o barciau, ardaloedd chwarae a siopau i ganolfannau cymuned, ysgolion a gofal iechyd. Dylid cyfeirio at Bolisi SP16 Cyfleusterau Cymunedol y CDLI.

4.7.2 Mae cyfleusterau cymunedol yn chwarae rôl gymdeithasol bwysig yn creu mannau lle gall aelodau'r gymuned gwrdd â'i gilydd. Maent hefyd yn helpu i gynnal iechyd a lles drwy annog cerdded a beicio a thrwy ddarparu addysg, gofal iechyd, gwasanaethau lleol a chyflogaeth.

4.7.3 Mae pwysigrwydd integreiddio datblygiadau newydd i'r cyffiniau wedi'i nodi uchod (gweler paragraff 4.4.3). Lle bernir bod cyfleusterau newydd yn angenrheidiol, rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'w lleoliad mewn perthynas â ffurf adeiledig bresennol yr

anheddiad. Bydd eu lleoli tuag at gyrion datblygiad newydd yn golygu bod modd i drigolion newydd a thrigolion presennol eu defnyddio a bydd yn help i hyrwyddo integreiddio cymdeithasol. Efallai y byddai'n fwy priodol darparu cyfleuster newydd yn fwy canolog mewn anheddiad, neu ymestyn un sy'n bodoli'n barod.

4.7.4 Mae hygyrchedd yn ffactor tyngedfennol wrth ystyried cyfleusterau cymunedol. O safbwynt datblygiadau newydd, mae'n bwysig eu lleoli cyn agosod â phosibl (o ran cerdded/beicio) at gyfleusterau presennol. Os oes cyfleusterau newydd i gael eu darparu, dylid eu lleoli o fewn pellter cerdded i gynifer o drigolion â phosibl (rhai presennol yn ogystal â newydd).



Cymysgedd o Ddefnyddiau

4.7.5 Mae datblygiadau sy'n cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau yn fwy cynaliadwy ac yn fwy manteisiol i les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cymunedau. Mae cymysgedd o ddefnyddiau, yn cynnwys tai, cyfleusterau cymunedol, siopau, mannau agored a chyflogaeth, yn cyfrannu tuag at ddiwallu anghenion lleol trigolion, gweithwyr ac ymwelwyr. Gall datblygiadau o'r fath leihau'r ddibyniaeth ar y car a gwneud ardal yn fwy bywiog, gan greu amgylchedd saff, sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth.

Deiliadaeth Gymysg

4.7.6 O ran datblygiadau preswyl mwy, dylid darparu amrywiaeth eang o fathau o dai i sicrhau bod anghenion amrywiaeth o ddarpar drigolion yn cael eu diwallu. Bydd defnyddio tai deiliadaeth gymysg yn hybu cydlynid cymdeithasol cymuned drwy ddarparu llety sy'n diwallu anghenion pawb, yn cynnwys tai i berchnogion preswyl (yn cynnwys tai fforddiadwy) a thai ar rent. Dylai'r cymysgedd gael ei wasgaru'n gyfartal hefyd ledled y datblygiad i osgoi gwahanu cymdeithasol. Gall cymysgedd gwael o ddeiliadaeth tai arwain at gymysgedd cymdeithasol anwastad mewn ardal a'r potensial ar gyfer allgáu cymdeithasol.



Enghreifftiau o dai deiliadaeth gymysg o fewn datblygiad newydd.



Datblygiad defnydd cymysg

4.7.7 Mae datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau gwahanol, er enghraifft preswyl, cyflogaeth, manwerthu, defnydd cymunedol a hamdden. Lle caiff datblygiad defnydd cymysg ei gynnig, dylid cymryd gofal i sicrhau nad oes potensial i wrthdaro rhwng y gwahanol ddefnyddiau.

4.7.8 Mewn datblygiadau mwy y tu allan i ganol tref, gall y cymysgedd defnyddiau gael ei leoli'n agos at ei gilydd neu'n ffinio â'i gilydd, er enghraifft canolfan iechyd neu archfarchnad fach nesaf at ardal breswyl neu o fewn ardal breswyl. Mae'n bwysig, fodd bynnag, fod perthynas dda rhwng y gwahanol ddefnyddiau – bydd y ddwy enghraifft a grybwyllwyd, er enghraifft, o fudd i'r cymdogaethau lleol ac yn lleihau'r angen i deithio mewn car.

4.7.9 Yng nghanol trefi, gellir darparu datblygiad defnydd cymysg ar wahanol lefelau mewn adeilad, er enghraifft, siopau ar y llawr daear a fflatiau uwchben. Mae defnyddio'r lloriau uwch yn annog perchnogion/deiliaid i gadw'r eiddo mewn cyflwr da, ac mae hynny yn ei dro yn cyfrannu at fywiogrwydd canol y dref ac yn ei wneud yn fwy deniadol i ymwelwyr.



Mae'r Ganolfan Ddarganfod, Llanelli yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau mewn lleoliad twristiaeth allweddol.

Crynodeb Gwerthuso'r Dylunio o ran Defnyddiau a Gweithgareddau:

- ✓ Dylai cynigion nodi cyfleusterau cymunedol lleol (siopau, ysgolion, cyfleusterau iechyd etc) mewn perthynas â'r safle;
- ✓ Dylai cynigion nodi a oes modd cyrchu at y cyfleusterau presennol ar droed neu ar feic;
- ✓ Lle nad oes modd cyrchu at gyfleusterau ar droed neu ar feic, dylid ystyried yr angen i ddarparu cyfleusterau o'r fath yn y cynnig;
- ✓ Gyda chynigion defnydd cymysg, dylai'r cymysgedd defnyddiau ddarparu ddigon o ddewis o ran tai a gweithleoedd;
- ✓ Gyda chynigion defnydd cymysg, dylai'r gwahanol ddefnyddiau fod yn gydnaws â'i gilydd ac ni ddylent gael unrhyw effeithiau negyddol ar amwynder ac ansawdd bywyd;
- ✓ Dylai cynigion preswyl nodi'r angen lleol am ddeiliadaeth gymysg a thai fforddiadwy;
- ✓ Dylai cynlluniau ddarparu deiliadaeth gymysg a thai fforddiadwy i ddiwallu'r galw lleol;
- ✓ Dylai cynigion ddosbarthu'r gwahanol ddeiliadaethau ar draws y safle i sicrhau cymysgedd cymdeithasol cytbwys ac osgoi gwahanu cymdeithasol.

4.8 Ansawdd y Dylunio a Pherfformiad

Cyflwyniad

4.8.1 Nid yw'n rhan o gylch gwaith y canllawiau cynllunio atodol hyn i fanylu ar bethau fel y cynllun ffyrdd neu ddyluniad ac adeiladwaith adeiladau unigol. Ymdrinnir â hyn mewn canllawiau cynllunio atodol ar wahân ar ddatblygiadau preswyl. Yr hyn y mae'r canllawiau hyn yn manylu arno, fodd bynnag, yw materion dylunio a chreu ymdeimlad o le, pethau fel perthynas y datblygiad â'i gyffiniau, ansawdd pensaernïol cyffredinol, gwynnwch ac addasrwydd i'r pwrpas, a'r seilwaith a'r gwasanaethau y mae rhaid eu cynnwys o fewn datblygiad ac y dylid eu hystyried yn gynnar yn ystod y cam dylunio.

Perthynas â'r saflee

4.8.2 Dylai datblygiadau (boed nhw'n safleoedd cyfan neu'n adeiladau unigol) gydymffurfio â ffurf a chyfansoddiad y dirwedd neu'r drefwedd y byddant yn rhan ohoni, a'u hategu. Dylai dyluniadau arddangos gwybodaeth o dirffurf a thopograffi'r ardal ynghyd â gwerthfawrogiad o nodweddion sydd

o ddiddordeb, fel coed, perthi a nentydd. Yn yr un modd, mewn cyd-destun mwy trefol, dylai adeiladau newydd ymateb i natur y ffurf adeileddig bresennol. Er y gallai fod cyfleoedd i arbrofi gyda ffurfiau pensaernïol gwahanol, er enghraifft mewn datblygiadau preswyl neu gyflogaeth newydd mewn strydwedd, yn gyffredinol dylai adeiladau newydd ategu'r adeiladau cyfagos o ran y ffyrnt adeileddig, y llinell doeau ac uchder o ran lloriau.



Caerfyrddin: Strydwedd newydd wedi'i datblygu sy'n ategu'r ffurf adeileddig hanesyddol.



Datblygiad newydd wedi'i integreiddio o fewn y nodweddion tirwedd presennol

Addas i'r diben, gwydn a chynaliadwy

4.8.3 Dylai datblygiadau newydd fod wedi'u hadeiladu'n dda, yn wydn ac yn addas i'r diben y maent wedi'i fwriadu ar ei gyfer. Mae hyn yn cynnwys eu cynllun, eu cyfeiriadedd a'u hwyneb-wedd. Bydd y cynllun mewnol yn cynnwys nifer, maint a lleoliad yr ystafelloedd, tra bydd yr elfennau allanol yn cynnwys maint, cyfeiriadedd ac wyneb-wedd gerddi a'r lle parcio ceir (mewn perthynas ag eiddo preswyl) a lleoedd parcio ceir, mannau cadw beics a thirweddau posibl (mewn perthynas ag adeiladau cyhoeddus ac eiddo cyflogaeth a masnachol).

4.8.4 Lle bynnag y mae hynny'n ymarferol dylai datblygiadau ddefnyddio defnyddiau cynaliadwy (defnyddiau sydd ag effaith amgylcheddol fach) o ffynonellau lleol (i leihau'r allyriadau trafndiaeth). Hefyd, dylid ymchwilio i ddefnyddio defnyddiau sydd wedi'u defnyddio, eu hadfer a'u hailgylchu.



Gofynion seilwaith

4.8.5 Mae'n bwysig fod gofynion seilwaith cynnig yn cael eu hystyried yn gynnar yn ystod y cam dylunio er mwyn eu hintegreiddio i'r cynllun ac fel bod modd rhoi sylw i unrhyw faterion a allai achosi problemau. Ymysg yr elfennau seilwaith nodweddiadol y mae angen rhoi sylw iddynt mae carthffosiaeth, trydan,

cyflenwad dŵr a thelegyfathrebu. Hefyd, dylid ymgynghori â'r awdurdod priffyrdd lleol ynglŷn â materion mynediad ar y ffordd fawr a dyluniad strydoedd a ffyrdd ar y safle.

Gwastraff ac Ailgylchu

4.8.6 Mae a wnelo un o'r ystyriaethau dylunio mwy manwl mewn cynllun â storio ac ailgylchu gwastraff. Oherwydd y newid yn y ffordd o ddelio â gwastraff mae pwysau i wahanu gwastraff yn ddefnyddiau ailgylchadwy a defnyddiau na ellir eu hailgylchu cyn i'r gwastraff gael ei gasglu. Efallai felly y bydd gan un cartref neu fusnes fwy nag un bin storio.

4.8.7 Mae'n hanfodol caniatáu digon o le i storio gwastraff ac ymgorffori hyn yn nyluniad y datblygiad. O ddewis, dylai biniau gael eu storio mewn unedau dan do, er enghraifft fel rhan o floc o garejys, fel estyniad to-ar-oledd neu mewn uned bren amgaeedig.

4.8.8 Mae mynediad yn bwysig iawn hefyd. Dylai'r rhai sy'n defnyddio'r cyfleuster gwastraff allu cyrchu ato'n ddiogel ac yn hwylus. Mae hyn yn wir hefyd o ran casgliadau, a dylai fod modd cyrchu'n rhwydd at y mannau storio o brif ffyrdd. Mae llygredd a diogelwch yn bwysig hefyd wrth ddelio â gwastraff sydd wedi'i gasglu ynghyd, oherwydd mae arogleuon a

fermin yn broblemau posibl. Bydd awyru da mewn unrhyw gyfleuster ynghyd ag amgáu cymaint â phosibl arno yn lleihau effaith arogleuon ac yn cyfyngu ar fynediad fermin.

Ansawdd Pensaernïol

4.8.9 Yn gyffredinol, dylai adeiladau fod yn ddeniadol ac yn ddymunol i'r llygad. Weithiau mae'n bwysig fod datblygiad yn adlewyrchu rhai o briodweddau deniadol ffurf hanesyddol leol yr adeiladau mewn ardal. Yn yr achosion hyn, mae adeiladau newydd yn debygol o gymryd eu lle'n dda yn y dirwedd neu'r strydweidd. Weithiau, fodd bynnag, nid yw datblygiadau newydd yn efelychu adeiladau traddodiadol neu'r ffurf adeiledig a'r canlyniad yw dynwarediad gwael o'r arddull leol draddodiadol.

4.8.10 Er nad oes iddynt arddull leol neilltuol, nodweddir llawer o'r aneddiadau yn Sir Gaerfyrddin gan eu strydweiddau a'u hadeiladau arbennig, ac maent yn adnabyddus am hynny – boed hynny i'w briodoli i natur y garreg adeiladu a ddefnyddiwyd (sydd yn aml yn adlewyrchu'r ddaeareg leol) neu i gyfansoddiad hanesyddol y dref unigol. Felly, os yw datblygiad yn mynd i ddilyn dull traddodiadol dylai fod yn driw i'r ffurf wreiddiol

y mae'n ei dilyn o safbwynt yr arddull a'r defnyddiau a ddefnyddir.



Tŷ fferm wedi'i adfer mewn dull modern sydd wedi aildehongli arddulliau traddodiadol.

4.8.11 Ar y llaw arall, mae llawer o ddulliau modern y gellir eu defnyddio i sicrhau datblygiadau deniadol a dymunol. Mae amgylcheddau trefol, er enghraifft, yn fannau lle mae'r arddulliau wedi esblygu i ymgorffori ffurfiau newydd sy'n creu strwythurau arloesol ac arbennig. Mae Sir Gaerfyrddin yn Sir sy'n adnabyddus am ei phwysigrwydd hanesyddol ac yn un a all ymfalchïo mewn nifer o gestyll canoloesol trawiadol. Dros y blynyddoedd mae datblygiadau modern, deniadol yn bensaernïol, wedi cael eu hymgorffori mewn ardaloedd trefol a gwledig.



Theatr Ffrwnes, Llanelli: datblygiad yng nghanol tref hanesyddol sy'n gwneud datganiad pensaernïol cryf gan ychwanegu at apêl yr atyniad poblogaidd hwn i ymwelwyr.



Dylunio modern safonol yn adeilad addysgu a dysgu newydd Prifysgol y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin



Pont King Morgan, Caerfyrddin: ychwanegiad modern, deniadol i'r llygad, at y drefwedd a'r dirwedd, yn darparu cyswllt cerdded a beicio o'r orsaf drenau i ganol y dref.

Crynodeb Gwerthuso'r Dylunio o ran Ansawdd y Dylunio a Pherfformiad:

- ✓ Dylai cynigion gydymffurfio â ffurf a chyfansoddiad y dirwedd y maent wedi'u lleoli ynddi, a'u hategu;
- ✓ Dylai cynigion ymdrechu i greu amgylcheddau deniadol ac ystyriol;
- ✓ Dylai datblygiadau newydd gael eu hadeiladu'n dda, fod yn wydn ac yn addas i'r diben y maent wedi'i fwriadu ar ei gyfer;
- ✓ Dylai gofynion seilwaith cynnig gael eu hystyried yn gynnar a dylid eu hintegreiddio i'r cynllun.

Y Broses o Greu Ymdeimlad o Le a Dylunio

5

Cyflwyniad

I wireddu lleoedd o ansawdd da, sydd wedi'u dylunio'n dda, rhaid cael proses cam wrth gam, a honno wedi'i seilio ar esblygiad cynnig ynghyd â dealltwriaeth o gymeriad Sir Gaerfyrddin. Rhaid hefyd i'r broses roi sylw i'r holl ffactorau eraill y manylwyd arnynt yn yr adrannau uchod.

Cydweithio: trafod yn gynnar gyda chynllunwyr/y gymuned leol

Dylid cynnal trafodaethau cyn ymgeisio gyda swyddog cynllunio (bydd ffi am hyn) yn gynnar yn y broses o ddylunio a chreu ymdeimlad o le i ganfod a yw'r safle'n briodol ar gyfer natur a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei ragweld, ac a yw'r prosiect yn debygol o gael cefnogaeth mewn termau cynllunio. Bydd y swyddog cynllunio, a chydweithwyr fel Ecolegydd y Sir, hefyd yn gallu rhoi cyngor ynglŷn â pha wybodaeth y dylech ei chyflwyno gyda'r cais. Bydd y Swyddog Cynllunio mewn sefyllfa hefyd i'ch cyngor pryd i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid allweddol lleol, fel Cyngorau Tref &

Chymuned, a chynghorir y fath o gynnig bydd yn cael ei gefnogi trwy'r broses gynllunio. Cynghorir Ymgeiswyr / Datblygwyr hefyd pryd i gysylltu â ymgynghoreion arbenigol fel Dŵr Cymru/Welsh Water; Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed er mwyn magu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r safle ac unrhyw faterion a allai effeithio arno.

Ystyriaethau Cychwynnol

Fel arfer bydd y broses, o symbylu cynnig cychwynnol i gyflwyno cais cynllunio yn y pen draw, yn cynnwys nifer o gamau, sydd wedi'u nodi isod.

- **Cychwyn y Prosiect** - bydd hyn yn golygu dewis safle a chynnal arfarniad cychwynnol wedi'i seilio ar bolisi cynllunio lleol, cyfyngiadau'r safle a phroblemau technegol posibl;

- **Deall Cymeriad Sir Gaerfyrddin** - canfod ym mha ardal cymeriad y mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli. Ystyried y nodweddion allweddol a'r egwyddorion dylunio a chreu ymdeimlad o le fel man cychwyn i'r broses ddylunio;

- **Nodi'r egwyddorion dylunio a chreu ymdeimlad o le** - Sefydlu'r weledigaeth ddatblygu ar sail yr arfarniad safle cychwynnol a'r ardal cymeriad. Nodi sut bydd y cynnig yn cyfrannu tuag at gynaliadwyedd yr ardal ac yn gallu ategu a/neu gyfoethogi cymeriad yr ardal.

Arfarnu'r Safle a'i Gyd-destun

Dylai datblygwyr wneud dadansoddiad manwl o'r safle a'r lle y saif ynddo. Fel arfer bydd hyn yn golygu astudiaeth bwrdd gwaith a dadansoddiad safle sydd wedi'u nodi isod.

Bydd yr astudiaeth bwrdd gwaith yn cynnwys casglu'r mathau isod o ddata, yn darlunio'r safle a'i amgylchedd:

- Map safle allan o'r Cynllun Datblygu;
- Ffotograffau o'r awyr;
- Gwybodaeth berthnasol yn manylu ar gyfleustodau a gwasanaethau, halogiad tir, safleoedd o bwys archeolegol, safleoedd o ddiddordeb o ran cadwraeth natur etc
- Cyngor gan arbenigwyr â chymwysterau addas e.e. arfarniad ecolegol cychwynnol.

Dylai'r **dadansoddiad safle** nodi cyfyngiadau a chyfleoedd a fydd yn dylanwadu ar ddyluniad y cynnig a dylid darparu cynlluniau gyda nodiadau, ffotograffau a brasluniau i ddarlunio'r cynnig. Bydd y dadansoddiad yn cwmpasu agweddau fel:

- Tirwedd - yn cynnwys topograffi, microhinsawdd, draeniad etc
- Golygfeydd a Fistâu - e.e. a oes unrhyw olygfeydd neu dirnodau arbennig? Pa gyfleoedd sydd i ymateb i olygfeydd i mewn i'r safle ac allan ohono?
- Defnydd tir a chyfleusterau presennol - e.e. defnydd tir cyfredol, defnyddiau oddi amgylch, capasiti'r gwasanaethau presennol etc
- Ecoleg a Bioamrywiaeth - e.e. a oes rhywogaethau gwarchodedig neu unrhyw safleoedd â dynodiad cenedlaethol neu leol ar y safle neu'n ffinio ag ef
- Ffurf Adeiledig - disgrifiad o natur unrhyw adeiladau ar y safle, a fyddan nhw'n cael eu cadw?
- Mynediad a Symud - sut mae pobl yn teithio rhwng cyfleusterau lleol? Lleoliad unrhyw arosfannau bws, beth yw patrwm symudiadau cerddwyr ar y safle ac o'i gwmpas?

Datblygu Cysyniad Dylunio

Dylai cysyniadau dylunio'r safle ymateb yn gadarnhaol i gymeriad y safle a'i amgylchoedd, ar sail y dadansoddiad safle a'r egwyddorion Dylunio a Chreu Ymdeimlad o Le. Ymysg yr ystyriaethau hanfodol byddai:

- Cymeriad Presennol - dylai cynigion gyfrannu'n gadarnhaol i'r amgylchoedd cyfagos a pheidio â gwneud drwg iddynt. Lle mae'r safle'n gorwedd mewn ardal sydd heb gymeriad na hunaniaeth neilltuol, dylai cymeriad ehangach Sir Gaerfyrddin a'r egwyddorion dylunio sydd wedi'u nodi yn y canllawiau hyn ddylanwadu ar y datblygiad.

- Seilwaith gwyrdd - dylai cynigion roi sylw i nodweddion seilwaith gwyrdd ar y safle a'r tu hwnt iddo, a dylent hefyd eu hintegreiddio;



- Cymeriad Tirwedd – Dylid cadw nodweddion cadarnhaol yn y dirwedd fel coed aeddfed a pherthi lle bynnag y mae hynny'n bosibl a dylent ffinio â'r ardal o gwmpas;

- Cymeriad Adeiledig - dylid deall yr arddulliau adeiladu sydd yn yr ardal yn barod er mwyn iddynt ddylanwadu ar ddatblygiadau newydd. Nid yw hyn yn golygu y dylai adeiladu newydd gopïo'r ffurfiau presennol, ond dylai fod perthynas gyffredinol rhyngddynt mewn termau gweledol.

- Seilwaith a Chyfleustodau - Dylai datblygwyr sicrhau bod y seilwaith angenrheidiol (dŵr, nwy, trydan, carthffosiaeth etc) un ai ar gael neu fod modd ei ddarparu o fewn datblygiad newydd. Byddai hyn yn golygu trafod ymlaen llaw gyda'r cwmnïau cyfleusterau priodol.



- Cyfleusterau a Gwasanaethau - Dylai datblygiadau newydd gael eu dylunio fel eu bod yn gwneud cymaint â phosibl o ddefnydd o gyfleusterau cymunedol sy'n bodoli'n barod, megis siopau ac ysgolion.

- Mynediad a Symud - Dylid dylunio datblygiad newydd fel bod modd ei integreiddio i'r ardal gyfagos, gan fanteisio ar y fframwaith symud presennol, a'i wella lle bynnag mae hynny'n bosibl. Gwneir hyn drwy atgyfnerthu cysylltiadau cerdded a thrafnidiaeth leol, a thrwy'r potensial i gyfleoedd eraill megis creu llwybrau beicio newydd.

- Ecoleg a Bioamrywiaeth - Dylid ymdrin â'r materion hyn yn gynnar yn y broses ddylunio i sicrhau effaith finial ar gynefinoedd neu rywogaethau sy'n bresennol. Dylai datblygwyr sicrhau bod swyddog proffesiynol â chymwysterau addas yn cael ei gyflogi i gynhyrchu unrhyw adroddiad ecolegol angenrheidiol a allai fod yn ofynnol.



Proses y Cais Cynllunio

Pen draw'r broses o ddylunio a chreu ymdeimlad o le fydd cyflwyno cais cynllunio (pe bai'r datblygwr yn dewis gwneud hynny). Bydd angen cyflwyno'r dogfennau perthnasol gyda cheisiadau cynllunio – arfarniadau o'r holl ffactorau y manylwyd arnynt yn adrannau blaenorol y canllawiau hyn.

Mae gwybodaeth ar gyflwyno cais cynllunio i'w chael ar wefan y Cyngor. Yma, mae dolen i'r Porthol Cynllunio sy'n rhoi canllawiau pellach ar gyflwyno cais, cyngor cyn ymgeisio a gofynion lleol a chenedlaethol. Gallwch gyflwyno cais ar-lein, neu os yw'n well gennych gallwch lawrlwytho pdf, ei lenwi a'i gyflwyno drwy'r post.



Astudiaeth Achos


Mae'r bennod hon yn ceisio adlewyrchu'r broses ddylunio a ddisgrifiwyd yn y bennod flaenorol ar ffurf astudiaeth achos ddamcaniaethol, i ddangos sut mae modd gwireddu lleoedd safonol sydd wedi'u dylunio'n dda. Fel y nodwyd ym mhennod 5, rhaid cael proses cam wrth gam i wireddu dylunio safonol, ac mae'r astudiaeth achos sy'n dilyn yn nodi'r ystyriaethau allweddol mewn unrhyw gynigion datblygu.

Map 1- Arfarnu'r safle a'i gyd-destun

Un ystyriaeth allweddol i gynllun yw canfod ym mha ardal twf y mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli, ac arfarnu'r safle a'r lle y saif ynddo.

Dylid dylunio datblygiadau fel eu bod yn integreiddio i'r dirwedd a'r fioamrywiaeth ac yn eu diogelu a'u gwella. Yr ystyriaethau allweddol yn yr astudiaeth achos hon fyddai'r topograffi, cyrsiau dŵr, pwysigrwydd ecolegol a'r tir posibl i'w ddatblygu.


Llain o dir llwyd mewn lleoliad trefol canolog. Dylai'r datblygiad arfaethedig ystyried y cyfleusterau a'r amwynderau trefol o amgylch.



Map 2 – Strategaeth Symud

Nodwedd bwysig mewn unrhyw ddatblygiad newydd yw'r ystyriaethau ynglŷn â hygyrchedd a gallu symud yn rhwydd. Dylid dylunio datblygiad newydd fel bod modd ei integreiddio i'r ardal o'i gwmpas, gan fanteisio ar y fframwaith symud presennol a, lle bynnag y mae hynny'n bosibl, ei wella drwy atgyfnerthu'r cysylltiadau i gerddwyr a'r cysylltiadau â thrafnidiaeth leol, a thrwy'r potensial ar gyfer cyfleoedd eraill megis creu llwybrau beicio newydd.


Map 2a



ALLWEDD

- Cyswllt i Gerddwyr
- Ffordd Drydyddol
- Ffordd Eilaidd
- Prif Ffordd


Map 2b



Map 3 - Gallu symud yn rhwydd drwy ardal, eglurdeb, golygfeydd a nodweddion

O fewn safle sydd at ei gilydd â chysylltiadau da a bod modd symud yn rhwydd drwyddo, dylai fod cyfle i ddarparu amrywiaeth eang o ddyluniadau stryd. Fodd bynnag, dylid osgoi mathau strydoedd sydd i gyd yr un fath. Ar lefel ddylunio fanylach, câi ystyriaeth ei rhoi i siâp lleiniau tir a'r lle arnynt, lled adeiladau, ffasadau a nodweddion.

Rhaid ystyried effaith weledol datblygiad drwyddi draw drwy edrych ar y datblygiad o'r ardal o'i gwmpas. Mae'r safle hwn yn ystyried lleoliad a dyluniad y tirwedd a'r adeiladau er mwyn creu mannau cofiadwy a chanolbwyntiau, a hefyd greu adeiladau tirnod i ddiffinio'r fynedfa i'r datblygiad. Mae dwysedd y datblygiad yn adlewyrchu'r ardal o'i gwmpas a'r cymeriad presennol, ac yn caniatáu ar gyfer stryd breswyl amgaeedig, sydd wedi'i diffinio'n glir.



Map 4 - Cynllun Enghreifftiol

